



# Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

ODLAU

PEDR HIR,

SEF

PETER WILLIAMS,

*YR HEWL LAS,*

LLANNEFYDD, RHYL.


LLANGOLLEN:

ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS,  
SWYDDFA'R "GREAL" A'R "ATHRAW."

PRIS SWLLT.

28915 f. 66





46  
1206  
C1020

ODLAU

PEDR HIR,

SEF

PETER WILLIAMS,

YR HEWL LAS,

LLANNEFYDD, RHYL.

---

LLANGOLLEN:

ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS, SWYDDFA'R  
"GREAL" A'R "ATHRAW."

PRIS SWLLT.

1879.



Bt. from widow of Bob Owen, Croesor



## GAIR AT Y PRYNWR HYNAWS:

BWYSICAF ŵr i mi, yn hytrach na'r Darllenydd  
'r wyf yn dy annerch di; ond cofia fi'n garedig at y  
Darllenydd llon, rhag iddo droi yn gritig, a 'mriwio  
dan fy mron.

PEDR HIR.

YR HEWL LAS,

*Alban Arthan, 1879.*



# CYNN WYSIAD.

	TUDAL.
Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol..	69
Adferiad iechyd Tywysog Cymru .....	64
Ar ol Thomas Williams, Tanygaer, Llanefydd .....	115
Bedydd Crist.....	81
Brys, brys, fy march .....	75
Bugeilgerdd, Owen Puw .....	5
Bydd canu yn y nefoedd .....	68
Cain ac Abel.....	24
Cân agoriad yr Eisteddfod.....	73
Crist yn rhodio ar y môr.....	61
Cusan fy nghariad .....	79
Cynghor tad i'w fab. (Shakspeare.).....	74
Dinas Duw .....	71
Dymunwn fod fel Iesu. (Cyfieithiad.).....	69
Emyn. (Cyfieithiad.) .....	60
Emyn boreu dydd yr Arglwydd .....	82
Emyn plant yr ysgol Sul .....	67
Englyn byrfyfyr i Miss R——, a'r gwallt melyn .....	42
Englynion i'r Asyn .....	41
Gostyngeiddrwydd .....	70
Hyd yn hyn ni ofynasoch, &c .....	72
Hyfryd ddyddiau Mai.....	43
I lodes deg.....	44
Neli fy nghariad .....	75
Pennill ar ol J. Hughes, Craig y Ddewarth, Rhuthyn ..	78
Pennillion i Ddarlun Mr. Simon, Rhuthyn .....	78
“ Rhwng y ddwy ac heb yr un.” .....	79
Rhyfelgan. (Efelychiad.) .....	65
Sali, Sali, Sali .....	80
Toriad gwawr .....	60
Uned calon saint ac engyl .....	71
Y bwthyn twt .....	66
Y crach-foneddwr .....	44
Y gadair wag .....	76
Y llygad glas lliwgar .....	73
Y tymhorau .....	42
Yr Iesu yn hawddgar .....	72
<hr style="width: 10%; margin: 10px auto;"/>	
Come, Cousin, come .....	111
Come, Sister, come .....	111
Gwenllian, wife of Ednyved Vychan .....	83
On the death of an infant .....	110
The Bottle as a Harlot .....	107
The death of Herbert .....	112
The death of Warwick .....	114
The weary traveller.....	112

# ODLAU.

---

BUGEILGERDD, OWEN PUW.

*Ail fuddygol yn Eisteddfod Caerymarfon, 1877.*

I.

A WYDDOCH am wlad yr eithin braith,  
Ddynweryd nos-ffurfafen faith?  
Lle mae'r ehedydd gyda'r sêr  
Yn afradloni miwsig pêr,  
Ac wŷn a lloi foreuau llon  
Yn prancio'n wirion ar y fron;  
Lle mae y gwenyn foreu a hwyr  
Yn casglu mêl i'w tyrau cwyr,  
Lle mae'r mynyddau'n gestyll certh,  
A'r moelydd gylch yn dyrau serth,  
A'r cymoedd rhwng y bryniau'n glyd  
Rhag pob ystorm a fina fyd;  
A Charog Fawr ar fin y nant,  
A Bwth y Bugail yn y pant;  
Lle mae Clywedog gyda cherdd,  
Yn llithro dros y gareg werdd,  
Gan wylo heibio'r fynwent brudd,  
Lle mae yr Yw'n pruddhau y dydd:  
A wyddoch am yr hen, hen Yw,  
Gysgodant fedd glas Owen Puw?



Llawer oes sydd wedi huno,  
 Er y nos Nadolig hõno,  
 Pan y safai Owen Puw,  
 Fachgen hoew llon ei ffriw,  
 Ar lethr anhawdd y mynydd bân,  
 Yn hwylio'i gamrau tua'r llan :  
 Pan oedd yr eira'n hulin gwyn,  
 Ar dal pob mynydd a phob bryn,  
 I dderbyn o orielau'r nen,  
 Nefolion gorau ar eu pen,  
 Fel cynt yn Iwda, gyda gwawl  
 O nef, a mwyn emynau mawl.

Ac arsyllai gan feddylio  
 Am y cymoedd dwfn yn huno,  
 Yn ngheseiliau y mynyddoedd,  
 A brenines deg y nefoedd,  
 A phob seren o'i ffurfafen  
 Yn pelydru yn ei hawen.

Ef a safai, a gwrandawai  
 Ar gynghanedd fwyn dystawrwydd ;  
 Ambell bluen eira burwen,  
 A ddisgynai dawel dywydd ;  
 Yntau gofiai am yr awr  
 Daeth Un glân o nef i lawr.

Oriau'r nos yn drymion dreiglent,  
 Oriau'r boreu adfywiogent ;  
 Ac yn mhell cyn gwrido'r Dwyrain,  
 Elai llawer tua'r blygain,  
 Lle 'r oedd côr o deg enethod,  
 Yn caroli mawl y Drindod ;  
 Yn eu plith dyrchafai Menna  
 Oslef bêr ei llais llawena',  
 Ac arweiniau'r bobl at Dduw ;  
 A phelydrau'i llygaid serchog

A'u dylanwad pur dihalog,  
Danient fynwes Owen Puw.

## III.

Nos Galan ddaeth, ac wrth y llwyn  
O gelyn braith 'r oedd Owen Puw,  
Yn dysgwyl am ei Fenna fwyn,  
A phrofi ei haddewid wiw;  
A hithau'n oedi d'od i'r lle,  
I brofi ei amynedd e'.

Ond pan gyfodai'r lloer yn llon  
I gânu'r eira ar y fron,  
Y Fenna ddaeth a'i gwyneb crwn,  
I lawenychu calon hwn;  
Ac Owen oedd yn teimlo'i hun  
Am y tro cynta' 'rïoed yn ddyn.  
A siriol Men fel Gwener wen,  
Yn pefrio'n siriol yn y nen.  
Yn mlaen yr ânt ar fin y ffrwd,  
A gwasgant eu cusanau brwd;  
Hwy ânt ar hyd y llwybr troed,  
I fyny hyd at gŵr y coed;  
A chroesi wnant dros droed y bryn,  
Ac ar hyd odreu'r mynydd gwyn;  
Ac wrth reseiliau, defaid fil  
Yn gorwedd ac yn cnoi eu cil.  
Ond â'r cariadon yn eu blaen,  
Nes cyrhaedd cornel ucha'r waen;  
Y ddau yn ol a ddont yn awr,  
I hebrwng Menna i Garog Fawr;  
Ac wedi cyrhaedd drws y cefn,  
Ac oedi yno awr drachefn,  
Nid oedd dim modd dyweyd ffarwel,  
Rhy fwyn oedd cwmni Menna ddel.  
Fe aed i lawr hyd at y llyn,  
Ac oddi yno tros y bryn;



Ac wedi methu canu'n iach,  
Fe aed yn mhellach dipyn bach.

D'od i'r buarth yr ail waith,  
At y llwyn o gelyn braith;  
Aros beth yn nghysgod hwnw,  
Gwneyd ammodau hoff eu cadw.

A daeth allan dad y fûn,  
Aeth â'i lygorn yn ei law  
Heibio'r gwartheg un ac un,  
Yn y beudy cynhes draw,  
Gan eu cyfarch wrth eu henwau,  
Ac anwesu a gwahodd;  
Rhwbio, cosi tan eu cernau,  
Hwytha'n tuchan wrth eu bodd.

A thra buodd yn ei awen,  
Mewn ymgom â'r eidion du,  
Troed y fûn oedd fel y bluen,  
Rhedodd Men i mewn i'r tŷ.

## iv.

Cyn gwenu o'r blodau ar y grug,  
Y wen ddiadell wŷn ymddug;  
Ac yr oedd Owen Puw yn awr  
Yn fugail ar y mynydd mawr.

A mawr ei ofal am yr wŷn,  
A boreugodai'r gwanwyn mwyn;  
A dringai ael y clogwyn mawr,  
A'i draed ar drothwy dôr y wawr.

Y wawr a brifiai ar y bryn,  
Uwch bro yn gwisgo aur a gwyn;  
Cyfrifai yntau'r praidd ar daen,  
O odreu'r wawr hyd odreu'r waen.

A difyr, difyr, fyddai'r daith  
Hyd wlithog fron yn llwybro'n llaiith.

Ond ambell famog barai boen,  
 Yn naca rhoi ei llaeth i'w hoen;  
 A'r hesbwrn corniog oedd o hyd  
 Yn tori, tori i'r egin yd.

Uchedydd mwyn ar ganol dydd,  
 Yn canu yn yr haul yn rhydd;  
 Mewn grug a drain yr adar mân  
 Yn nythu ac yn nyddu cân.

Daeth adeg chwilio clawdd a pherth,  
 A chwilio a gwylio mwy na'r gwerth;  
 Nyth bychan crwn a phedwar wŷ,  
 Yw gwobrwy am y drafferth.

Ymdaena blodau hyfryd cain,  
 Yn befr hyd bob gwialen fain;  
 Ymwisga coed yr ardd a'r berth  
 A phob prydfferthwch mirain.

O'r diwedd daeth dydd cyntaf Mai,  
 A changhen haf yn deg ddifai  
 A bêraroglai yn yr ardd,  
 Yn annerch serch i Menna hardd.

## v.

Crychlamai defaid ar y bryn,  
 Eu cefnau'n sych, a'u gwlan yn wyn  
 Ar ol yr olehfa yn y glyn;  
 Tra'r ydoedd Owen gyda'r wawr,  
 Yn hel diadell deg i lawr.

Daeth y bugeiliaid clau yn nghyd,  
 Oll yno'n llon eu bron a'u bryd.

Rhai o Feifod, rhai o'r Hafod,  
 Llawnt, a'r Coed, a'r Nant y Cawn,  
 A rhai ereill o dai ereill,  
 At eu llafur ddifyr ddawn.

Difyr llafar y gwelleifiau,  
 A'u ffrill odlawg siffr rilliadau;  
 Hithau'r ddafad druan ddiddig,  
 Ni atebai fref yr oenig;  
 A genethod loewon lygaid,  
 Ymgystadlent â'r bugeiliaid;  
 Pawb a'i ddafad ar ei lin,  
 Yn chwiw chwareu awchus fin,  
 Ac yn troi y canlliw gnu,  
     Canlliw fel gorewyn tòn,  
 Pan fo môr yn fawr ei ru,  
     Ac yn chwyddo cenllif hon.

Medrai Hywel gneifio'n fedrus,  
 Cneifio rhywiog ar Ben Rhaw;  
 A phennillion gorawenus  
 A ddadgenid ar bob llaw.

*Tudur Llwyd.*

Diadell sydd genyf, a hyfryd ei chyfrif,  
 Y gwlan sydd yn bwysi o bais i bob un;  
 A buches yn pori y llenyrch a'r llwyni,  
 A lloiau ugeiniau y gwanwyn.

Y gwartheg yn dduon, a'r defaid yn wynion,  
 A merlod y mynydd odiaethol ar dith;  
 A cheirch ar y gweunydd, a gwair ar y rhosydd,  
 A meusydd i gynnydd y gwenith.

*Gweno Llwyd.*

Mae'r grug yn ei flodau, a'r gwenyn yn foreu  
 Yn myn'd i'w negesau ar edyn o gân;  
 Ac ieir yn mhob goror yn dodwy a deor,  
 A thua'r ysgubor gwyneban'.

A merlen i gario, a heini yw hòno,  
 A hwyaid yn hoewon yn llywio'n y llyn;

A'r fuches arafaidd yn rhoi yn garuaidd  
Yr armael a'r mwynaidd ymenyn.

*Owen Puw.*

Myfi bia Corro heb addef ail iddo,  
Cyfrwysed a Rheinallt, mae'n deall fel dyn;  
Adwaena'n dda ddigon y mynydd a'i gyrion,  
A throion anhirion feheryn.

Myfi bia Corro, a'r ddwygamp sydd arno  
Yw medru bugeila a hela yn hy';  
A thrysor sydd imi na fynaf ei enwi,  
Rhag i mi ei golli o felly.

Pwy feddyliai y fod yno  
Galon glwyfus dan un fron?  
Dagrau gwaed yn araf dreiglo,  
Tra'r gwefusau'n canu'n llon;  
Fel y pryfyn yn y rhosyn  
Pan fo fwyaf flwch ei wedd,  
Owen Puw a deimlai'r briw,  
A difwynid ei holl hedd.

Yn nghanol pawb y truan ddyn  
Oedd unig ar ei ben ei hun,  
Am nad oedd Menna galon bur  
Eleni gyda'i gwellaif dur.

VI.

Lle tardd Clywedog a deifr byw  
Ei hebyr hi 'r oedd Owen Puw  
A chalon dewr, cyhyrau cawr,  
A'i foch yn goch gan wrid y wawr,  
Yn arail ei ddiadell wen,  
Ar lethrau mwynaf îs y nen,  
Lle bu'n hiraethu lawer awr  
Am weled Menna deg ei gwawr.  
Ac un diwrnod Owen Puw  
Ddewisai gainc o frigau'r Yw,



A thorrodd hi yn bwt o ffon,  
Ac yn chwibanogI naddodd hon.

A phan yn dringo'r mynydd ban,  
Neu yn meddylio gyda glàn  
Clywedog fwyn, gan deimlo'i hun  
Ei hunan heb ei Fenna gun,  
E gai ddifyrwech mawr yn sain  
Lleddf-wichlyd ei chwibanogI gain;  
Neu os y teimlai 'i hun yn glaf  
O hiraeth ar brydnawn o haf,  
Pan fyddai'r hwyr awelon prudd  
Yn wylo colli haulwen dydd,  
Ar hyd y cwm pan wylent hwy,  
A'i enaid yntau'n wylo mwy;  
Pan wylai'r lleuad wyneb gwyn,  
Ei dagrau dysglaer ar y llyn,  
Gofidiau hiraeth Owen Puw  
Gymmysgent â'r llithrseiniau syw;  
A boddid ei deimladau dwys,  
Yn ymchwydd yr alawon glwys;  
A mwyn y chwiban brudd ei chân,  
Yn absennoldeb Menna lân.

## VII.

Rhyw nawn Orphenaf tesog poeth,  
Yr haul yn llosgi'r brynianu noeth,  
Arosai gwartheg yn y ffrwd  
I ymoeri herwydd tywydd brwd;  
A rhwng twmpathau eithin, brwyn,  
Gorweddaï myllt, mamogau, ŵyn;  
A'r bugail oedd tan glogwyn serth,  
Yn nghil y graig tan gysgod perth,  
A chwareu ar ei chwiban chwai,  
Y glwyfus dôn Serch Hudol wnai.

Ac amled canodd Owen Puw  
Yr alaw hon, nes oedd y Dryw,  
Y Fronfraith, a'r Aderyn Du,

Ac adar ereill pêsain merth,  
Yn casglu ato 'n nghwr y berth,  
I byncio eu hacenion cu.

Pan ymgollasai yntau'n lân,  
Yn serchog swyn ei glwyfus gân,  
A mwyn gynghanedd adar mân,  
Yn ddystaw Men ddaeth o'r tu cefn,  
A cham, a cham, a cham drachefn;  
Yn ddystaw bach hi ddaw yn awr  
I'r man yr eistedd ef i lawr;  
Ac am ei wddf y dyry Men  
Yn serchog iawn ei dwyfraich wen;  
Cudynau llaes ei rhyddwallt hardd,  
Yn grych ddisgynant ar ei fron,  
Fel adlewyrchiad haul mewn tôn,  
Ei llygaid oedd mewn dagrau'n llon,  
A bu ymgyfarch diwahardd.  
Y fwyn chwibanogl ar y llawr  
Orweddai rhawg yn angho' 'n awr;  
Ond mynai Corro sylw teg,  
Yn cyfarth cyfarch, chwarywy chweg,  
A chroesaw mawr i Fenna fwyn.  
A hwythau'n eistedd ar y brwyn  
Nes oedd yr haul yn gwyro'i lawr  
At drum yr hen Hiraethog fawr;  
A'r gwirion wryn gwmnioedd mân,  
Tros bob rhyw lanerch lwysdderch lân,  
Yn llemain yn ddiotal fryd,  
Tra porai'n chwern a phert o hyd,  
Pob prysur famog astud iawn,  
Yn mwyn adfywiant y prydawn.

## VIII.

Un hwyr dien, haf dysgywen,  
Rhodia Owen ael y bryn,  
A myfyria ar ei Fenna,  
A'i serchiadau oll yn llyn;

“Yn mha ddiphwys mae dy loches?  
 Mae dy garchar feinwar fwyn;  
 Lle y dygi ffyddlawn gyni,  
 Gan ymoddef er fy mwyn?”

O! na fyddai'th dad yn goddef,  
 Fyddai fawr i foddio'i ferch!  
 Byth mo honom ni ddiddyfnir,  
 Ac ni ddihsbyddir serch;  
 Dwy ffynnonell sydd i'n cariad,  
 Oll yn llifo'r naill i'r llall,  
 Fel dwy aber yn y cymmer,  
 Llifant beunydd yn ddiball.

Brefa'r wŷyn, ac etyb mamau,  
 Ac i'r banciau sych yn awr,  
 Y ddiadell gydymgasgla  
 I'w gorphwysfa hyd y wawr;  
 Yno cnöant gil yn dawel,  
 Tra bo hywel sêr uwchben;  
 Na chawn innau'th gwmni heno!  
 Llad i'm swyno, lodes wen.

Ar yr uwchaf ael y safaf,  
 Oll o gylch i wel'd y wlad  
 Gynt oedd firain pan o'it tithau  
 Arni'n rhoddi doniau rhad;  
 Gwn fod rhywle'n Eden eto,  
 Wiwdlos fro hudolus fri;  
 Gardd o swynion, llawn dillynion,  
 Gwynfyd hyfryd lle'r wyt ti.”

Ac fel yna y meddylia,  
 Prudd yw'r llanc oedd gyneu'n llon  
 Ac er chwareu ei chwibanogl,  
 Clwyfus yw yn friw ei fron;  
 Fel y cwyd y tARTH o'r corydd,  
 Ac y dringa'r moelydd ban,

Llaith y llwybr y ffordd yr ela,  
 Heb orphwysfa yn un man.

## ix.

Ar ol ciniawa un prydawn,  
 A llewyrch haul yn danbaid iawn;  
 Heb awel ffres, na ffrill o gân,  
 Na bref o fysg y defaid mân,  
 Hiraethus lanc ar ael y fron  
 Oedd swrth ei fryd yr adeg hon.  
 A Menna ddaeth, y lona 'n fyw,  
 I edrych am ei Howen Puw;  
 Ac ar y llethr y cafodd ef  
 Yn nghwsg, a'i wyneb tua'r nef.

Y mae'r bugeiliaid, pawb a'i gŵyr,  
 Yn gwylio'n foreu ac yn hwyr:  
 A melus cynt-hûn y prydawn  
 Pan y tywyno'r haul yn llawn;  
 Ac Owen felly 'r adeg hon,  
 A'i hoff chwibanogl ar ei fron;  
 A hon gymmerai'r gariad fwyn,  
 A chanodd gainc oedd drech ei swyn.

Ond heb ddatod cloiau'r pyrth,  
 Treiddiai'r alaw megys gwyrth  
 I ystafell gudd y galon,  
 Gan ddeffroi'r serchiadau tirion.

A fo uwchaf yn y bryd  
 Pan yn effro, hwn o hyd  
 Pan fo mwyaf cwsg yn pwyso  
 Y meddylia dyn am dano.

Fel y chwerid serchalawon,  
 Grudd nis celai gystudd calon;  
 Weithiau gwên, ac weithiau gofid,  
 Tros y wyneb yn cyfymlid.



Menna dyner, Menna greulon!  
 Nac arteithia serchlawn galon;  
 Ond er cymmaint dy greulondeb,  
 Dagrau byw sy'n gwlychu'th wyneb.

A hi eto'n para i ganu,  
 Mynwes Owen yn cynhyrfu,  
 Ar ei draed y bugail neidiai,  
 Ac yn hyny fe ddefroai.

“Menna deg, ai ti sydd yma,  
 Gwiw ei gwawr, a gwèn fel eira?  
 Dywed i mi ai breuddwydio  
 Wneis, ac wy'n ei wneuthur eto?”

“Ië, Owen, fi sydd yma,  
 Ceisio wnawn fy nhrysor pena';  
 A phan ddaethum o hyd iddo,  
 Pump o gloion plwm oedd arno.”

“Noson ddu ddiloer oleuni,  
 Fu dy absennoldeb i mi;  
 Fel y lleer ar ol y newid,  
 Deui gyda deufwy glendid.

Fel y tora gwawr y Dwyrain  
 Ar wedd hardd tir Gwynedd firain:  
 Felly'm llon olygon innau  
 Graffant ar dy degwch dithau.”

Dysyml ydoedd eu cyfeirchion,  
 Ond diamwys, pur, a gwiwlon,  
 Fel yr esgyn yr ehedydd  
 I roesawu y boreuddydd.

“Dywed i mi o b'le daethost,  
 Alltud yn mha wlad y buost?”  
 Felly Owen a ofynai,  
 Ac fel hyn hyhi atebai,—

“Yn y man adroddaf i ti  
Holl ddirgelion fy ystori,  
Os dywedi di i mi  
Beth yn awr freuddwydit ti.”

x.

“Breuddwydiwn weled Menna yn chwareu gyda'r wŷyn,  
Ac adar duon lawer a'u cerddi'n llenwi'r llwyn;  
Pan geisiwn innau gychwyn, a rhedeg atat ti,  
Cadwyni plwm cystuddiol oedd ar f'aelodau i,

Yn nesaf mi a'th welwn yn trefnu cnuoedd gwlan,  
A llawer o fugeiliaid yn cneifio'r defaid mân;  
Un cudyn o'th wallt llathraidd i mi oedd fil mwy mât,  
Na saith o weithiau seithwaith holl gnuoedd gwlan  
dy dad,

A chwed'yn mi a'th welwn yn rhodio yn yr ardd,  
A thithau'n ardd dy hunan yn berllan wawrlliw hardd;  
Ac wrth y cychod gwenyn y safit, mwyn dy bryd,  
I wel'd ystwrff dinasoedd, a threfnus dyrau clyd:  
Dy fochau sidan esmwyth, rhosynog fel y wawr,  
Y diwyd welyn gerddent, ac mewn hudoliaeth mawr  
Anghofient eu gorchwylion, a thybient eu bod hwy  
Yr eilwaith yn mharadwys mewn gorawenus nwy'.

Ac yna mewn maes gwenith y'th welwn di fy myd,  
A minnau yn y fedel yn tori'r addfed yd;  
Wrth i ti wasgu'r cwlwm o dan y rhwymyn, Men,  
Mi wyddwn fod yr ysgall yn pigo dy law wen;  
O ran yr oedd fy nghalon yn teimlo brath a briw,  
Pan wasgit aur llynau ysgubau gwenith gwiw.  
Mi fynwn ddyfod atat i dynu'r pigau blin,  
A thithau yn ddiotal, ysmala oedd dy fin;  
Ysgafned y symmudit a'r wylan ar y dôn,  
A minnau'n methu symmud, a dybryd oedd fy mron;  
Mi deimlwn fy aelodau yn gwreiddio yn y llawr,  
Ar hyny ymegniais i dori'r hudedd mawr;

Gan ymdrech mi ddeffroais, a cholli felly wneis  
 Y Fenna yn y breuddwyd, a'r Fenna wir a geis.  
 Fel yna y breuddwydiwn ac felly y pruddhawn,  
 Y cuddion ragawgrymau deongla dithau'n llawn."

Atebai'r wenlliw brydferth, rosynog fel y wawr,  
 "Pe modryb o Fodrochwyn fuasai yma'n awr,  
 Yn ffraeth hi ddeonglasai bob rhybudd i ti'n wych.  
 A minnau wyf yn canfod—dy freuddwyd sydd yn  
 ddrych

O helynt garwriaethol rhyw gystuddiedig ddau,  
 Ac er y cystudd nychlyd y cariad yn cryfhau,  
 Ac fel y tyfai'r cariad, y cystudd yn trymhau.  
 Er dyfod i'r cynhauaf pan gesglir adre'r yd,  
 Y drain a'r blinion ysgall a'u poenant hwy o hyd;  
 Fe gollaist ti y Fenna oedd yn y breuddwyd brau,  
 Ac felly'r mab trallodus, serchglwyfus, galon glau,  
 A gyll ei eilun yntau mewn olaf ymdrech fawr,  
 Na welir m'oni mwyach lle'r egyr emrynt gwawr.  
 Dy freuddwyd a ddiflanodd, siomedig fu dy ran,  
 Nes gweled fod dy Fenna sylweddol yn y fan;  
 A hwythau y cariadon, er colli'r naill y llall,  
 A gyfarfyddant eto mewn byd heb iddo ball,  
 O'r hwn nid yw'r byd yma ond cysgod gwelw iawn,  
 Y breuddwyd yw hwn yma, a hwnw'n sylwedd llawn."

Fel yna'r fun felusfin esboniai yn ddiball,  
 A'i llaw yn llaw ei chariad, a Chorro'n llyfu'r llall;  
 Ni chredai y deongliad, ac nis anghredai chwaith,  
 A llonai gobaith cariad yn myw ei llygad llaith;  
 Ac ar y grug mwsoglyd, ac ar y dyfrllyd frwyn,  
 A'r borfa las fêr flasus, a'r defaid mân, a'r wŷyn,  
 Edrychai oll o'i hamgylch, a chwyddai y boddhad  
 Wrth wibio ei golygon hyd fryniau teg ei gwlad.

A'r bugail a atebai, "Mwy na wahaner ni,  
 Rhag dygwydd gwirio'r breuddwyd fel y deonglaist ti;

Ymgadwn gyda'n gilydd yn ffyddlon a diwâd,  
 Fel clywsom son am rengau y milwyr yn y gâd.  
 Gwel dirion Foel y Cogau, a Bryn y Iyrchod mwth,  
 Garn Hywel a Moel Warchawd, a'r llyn a'i lygad  
 rhwth;

Cynefin â'i ddinaswyr, a chwm a mar'ddwr cam,  
 A'r Garog fwyn ei dwndwr, ac acw fwth fy mam;  
 Ond hwnt i'r trumiau pellaf, gleis-dduon acw, draw,  
 Mae moelydd bân yn gwylio rhyw fröydd teg difraw;  
 A chynefinoedd ereill, a bryniau gwych eu bri,  
 Diedyll i'w hareilio, a bwthyn teg i ti."

XI.

Nos auaf gynt y gwynt a'i ru  
 Gythryblai yn simneiau'r tŷ,  
 A gwyrain dderw gyda bloedd:  
 Y gwartheg yn y fuches oedd,  
 A'r defaid yn y cae islaw,  
 Yn nghysgod y mynyddau draw.  
 O gylch y tân yn Ngharog Fawr  
 Y teulu a eisteddai i lawr  
 Yn glyd a llon, yn fawr a man,  
 A'r crochan uwd oedd ar y tân;  
 Ac wedi troi yr uwd yn iawn,  
 A berwi o hono deirawr llawn,  
 Pob un fwynhai, lawenaf fodd,  
 Nid wrth y bwrdd, ond gylch y tân,  
 Y swper syml a barotodd  
 Y Fenna deg â'i dwylaw glân.  
 Ysgaldio a rhwbio'r llestri coed,  
 Ac yna eu cadw ar fyr oed,  
 Ac eistedd wed'yn awr neu ddwy  
 I wneyd yr hosan beth yn hŵy;  
 A phawb a'u chwedlau am eu hynt,  
 Neu orchest gampau'r oesoedd gynt;  
 Ac felly treulient hwy eu nawn,  
 O chwedl i chwedl yn ddyddan iawn.



"Dywedwch chwithau chwedl, fy nhad?"  
 Ond ef atebai'r fenyw fad,  
 Gan ysgwyd pen, "Na wnaif yn wir!"  
 A syllai ar y tân yn hir.  
 Ond Gweno Llwyd adroddodd dair,  
 A'i hanes ei hunan yn y ffair,—  
 "Pan gwrddais i gyntaf â Thudur Llwyd,  
 A dechreu fy hela i i'w rwyd."

Fe aed i orphwys yn y man,  
 Tra dyrchai'r awel oergri fan;  
 Ond arosodd Menna ddiwyd  
     Enyd i enhuddo mawn;  
 Yntau'r tad arosodd hefyd,  
     A darllawiai ofid llawn.

"Megais di, fy merch, yn anwyl,  
 Ac ufydd-dod wyf yn ddysgwyl;  
 Dyna'r unig gydnabyddiaeth:  
 Hyny ni chaf fi ysywaeth.

Myna Owen fy ysbeilio,  
 Tithau wyt yn foddlon iddo;  
 Ond myfi nid wyf yn foddlon,  
 Minnau fynaf beth fo purion.

Fel mae cefn mynydd-dir anial  
 Yn gwahanu ffrydiau grisial,  
 Felly y'ch gwahenir chwithau,  
 A myfi a'i gwnaf yn ddiau."

Megys awel fain o rewynt,  
 Ar flaen aden y Gogleddwynt,  
 Yn Mehefin pan y'i teimler,  
 Yn difetha blodau tyner;

Geiriau'r tad oe'nt braidd yn sarug,  
 Fel y foreu chwaf ar farug:

Ond tynerach y fun addien  
Na gwyrf flodau yr afallen.

Awel fechan yn Mehefin  
A ddifetha yn fwy gerwin,  
Na holl ruthredd y Gogleddwynt,  
Pan fo gauaf ar ei gerhynt.

Weithiau bydd rhyw siffrwd bychan  
Yn dychrynu mwy na tharan ;  
Un drem ddig yn fwy ofnadwy  
Na'r fflam dorchog yn rhaiadrog ei rhyf-  
erthwy.

## XII.

Fe glywyd Corro un o'r gloch  
Y boreu hwnw'n udo'n groch ;  
Ac wele trannoeth nid oedd Men  
Yn cario'i chunog ar ei phen,  
Nac Owen gyda'r praidd ychwaith.  
Fel pan fo fflam o rychwant maith  
Yn ffroch raiadru o ddas i ddas,  
Gan fygwth yn ei hangherdd glas,  
Ddifrodi'r werthfawr ydlan gled,  
Nes rhedo dychryn gwyllt ar led,  
A brys a chyrcu yma a thraw :  
Fel yna yma y gwyllt fraw.  
Ond er ymholi a chyffroi,  
Ac erlyn draw yn ddi-ymdroi,  
Ni welwyd mwy o Menna bur :  
Ei hol yn unig ar y mûr.  
A brefai'r defaid am eu ffrynd,  
'R oedd Corro hefyd wedi myn'd,  
A chuddiai'r eira ar ddôl a bryn  
Grwydriadau y cariadon hyn.

## XIII.

Fe dreiglodd blwyddyn ar ei thro,  
A chwiliwyd llawer cwm a bro,

Olrheiniwyd llawer tref a phau,  
 A mwy bryderwyd am y ddau;  
 A mawr oedd hiraeth mam a thad,  
 Am unig ferch mor gu a mât.  
 Fe gafwyd ci'n lle Corro fwyn,  
 Fe gafwyd bugail ar yr ŵyn;  
 Ond ni chaed geneth yn lle Men,  
 Mor fwyn, mor dyner, ac mor wen.

## XIV.

Yn glaf o glwyf y dwymyn ddu  
 Aeth Tudur Llwyd, tad Menna gu.  
 Am wag-ymhoni dim nid wyf,  
 Nid ydwyf am ddesgrifio'i glwyf,  
 Na maint y boen, na pha'm y tardd,  
 Nid wyf yn feddyg ond yn fardd.  
 Ond Menna oedd, y lân ei phryd,  
 Yn meddwl Tudur Llwyd o hyd.  
 Ac yn y nos y rhoddai floedd,  
 Ei lais yn wag, ac eto'n g'oedd,  
 "Mae Menna'n curo wrth y drws,  
 Agorwch i fy mhlentyn tlws."  
 Fe allai cysgai awr neu ddwy,  
 I ddeffro yn gythryblus fwy,  
 "Mae Menna wrth y drws drwy'r nos,  
 Agorwch i fy ngeneth dlos;  
 Ar ol y daith y mae hi'n flin,  
 Ac wedi nychu gan yr hin."  
 O'i wely codai, llawn o rym,  
 A'i rudd yn welw ac yn llym,  
 "Peidiwch, agoraf i fy Men,  
 Gwnaf roesaw i fy ngeneth wen."  
 A thra i arall fyd yr ai,  
 Ar ei fin mudion eiriau dd'ai,  
 Gan farw ar ei wefus wan,  
 Fel tòn yn darfod cyn y làn:  
 Deallwyd ef wrth droi ei ben  
 I farw, yn dywedyd "Men."

Aeth misoedd heibio gyda'r lloer,  
 A'r flwyddyn ddaeth i'r gwyliau oer;  
 A blwyddyn arall ddaeth i ben,  
 A'r haul symmudodd yn y nen,  
 Ac heibio i'r Albanau maith  
 Yn rhawd y nef y drydedd waith.  
 Pedwaredd flwyddyn roddes dro,  
 A Thudur Llwyd oedd yn y gro,  
 A Gweno Llwyd yn Ngharog Fawr,  
 Ar deg brydnawn yn eiste'i lawr,  
 A chlywai sain goslefoedd mwyn,  
 Yn deffro adgof gyda'i swyn:  
 Llesmeiriodd braidd pan glywodd ef,  
 Fel chwaf yn cario seiniau nef.  
 Ac wrth y drws 'r oedd Owen Puw  
 Yn canu gyda'i blentyn syw;  
 Ei eneth fechan bum' mlwydd oed,  
 Yn canu'n beraidd wrth ei droed.  
 A chyda'r gain chwibanogl gu,  
 A fedrai bron alawon lu;  
 Arweiniai ef yr alaw rydd,  
 A'i blentyn ganai Doriad Dydd.

"Yn mhell fy mam fu farw,  
 A'i phen ar fron fy nhad;  
 A chladdwyd hi tan dderwen fawr,  
 Yn mhell, yn mhell o'i gwlad.  
 Ei hanwyl lais oedd beraidd,  
 A minnau'n fyr fy ngham,  
 Hi ddysgodd i mi garol fwyn  
 Ddysgasai gan ei mam.  
 A phan yr oedd yn marw,  
 Dymunai ar fy nhad  
 Fy nghym'ryd adref at fy'nain,  
 I fro'r awelon llad.  
 A thra yn dweyd, ei hanadl  
 A oerodd ar fy ngrudd,



'A bydd yn eneth dda i'th nain,  
I'th daid yn ufydd bydd.'

Cychwynodd nhad a finnau  
Ein siwrnai ddyrys faith,  
Gan ganu'r garol yn mhob cwm,  
Ni gawsom ben y daith.  
Mewn gwellt tros lawer noswaith  
Lletyodd nhad a fi,  
Ac yn ei gesail minnau'n glyd,  
A Chorro wyliai ni.  
Bydd nhad yn fugail eto  
Ar lethrau'r bryniau mwyn;  
Bugeiles fechan fyddaf fi,  
A'm gofal am yr ŵyn.  
Mi welaf y cawn roesaw,  
Mae'r dagrau ar eich grudd;  
Fe dorodd gwawr Rhagluniaeth wen,  
Wrth ganu Toriad Dydd."

## xvi.

Bu Owen Puw o fryn i fryn  
Am hanner can'-mlwydd wedi hyn,  
Yn fugail ar y defaid mân.  
Bu aml i brudd-der tan ei fron,  
A hiraeth mawr am Fenna lon;  
Ond siriol gwmni'r eneth fach  
A wnai ei galon lesg yn iach:  
Darllenai'i mam oll yn ei merch,  
Can's anian fwyn y Fenna lân,  
A wenai yn ei gwyneb derch.

---

 CAIN AC ABEL.

## I.

O! CHWI egwyddorion a siglwch deyrnasoedd,  
A dolef eich udgyrn gynnullwch genedloedd,

Y rhai a ranasoch y ddaear a'r nefoedd,  
 Y rhai a barasoch fod uffern ac angeu,  
 Gan osod gagendor yn derfyn y pleidiau;  
 Drygioni a daioni, santeiddrwydd a phechod,  
 O! deuwch a gwelwch eich syml fabandod,  
 Cyn llunio rhyfeloedd ofnadwy eu difrod,  
 Na'u hoffer arswydus i rwygo calonau,  
 Yn ymyl Paradwys yn llenwi mynwesau  
 Y teulu cyntefig âg ingoedd ac alaeth,  
 Yn gynllun o waeau dyfodol dynoliaeth.

## II.

*Dadl Cain ac Abel.*

Gan adael ei ddefaid wrth ddyfroedd Euphrates,  
 Yn nghysgod ffigyswydd yn gwneuthur eu lloches,  
 Aeth Abel i gadw y Sabbath yn santaidd,  
 A Chain a gyfarchai fel hyn yn garuaidd:—  
 “Fy mrawd a fy nghyfaill, hawddamor hael i ti,  
 A henffych i'r Sabbath, cawn heddyw addoli  
 Ger bron ein hallorau y Cadarn Achubydd,  
 A chydymhyfrydu yn nghariad ein gilydd.  
 Hyfrydlawn yw arail y fuches ddiniwed  
 Ar lànau hyfrydlawn, i brofi ac yfed;  
 Ond mwynach i'm henaid gyfeillach ein gilydd  
 Mewn cyngor, a chymhell, a chariad, a cherydd.  
 Er bod yn alltudion mewn tiroedd estronol,  
 A'r cleddyf yn gwarchawd yr ardal ddymunol,  
 Yn mwyaf gerwinder ein cyflwr syrthiedig,  
 Dyddenir ein gilydd â geiriau caredig:  
 Yn ngwenau ein gilydd y gwenwn yn hyfryd,  
 Yn nghwynion ein gilydd adlonir ein hysbryd;  
 Ac mewn cydymdeimlad y wylwn lawenydd,  
 Ac wele baradwys yn mynwes ein gilydd;  
 Yn nwylaw ein gilydd yr ydym yn gryfion,  
 Mae gafael y dwylaw yn gysur i'r galon.  
 Yr wyl a santeiddiwn ni heddyw mewn cariad,  
 Yr Arglwydd a hoffa gydsyniol addoliad.”

A Chain a ofynai, "Pa fodd yr addoli  
 Jehofah ofnadwy a luniodd oleuni?  
 Olwynion ei gerbyd yw'r gwyntoedd ystormllyd,  
 A'i breswyl yn nghanol taranau dychrynlyd:  
 Pa fodd yr ennilla dyn euog ei sylw,  
 A dyn collfarnedig felldithiwyd i farw?"

"Pa fodd y gofyni i mi?" ebai Abel,  
 "Ti wyddost yn well ei ewyllys oruchel:  
 Tydi yn rhagoriaeth dy fraint enedigol,  
 A fyddit yn helpu ein tad yn wastadol;  
 Tydi, y mab hynaf, a ddelit y gyllell  
 I waedu y brasaf o ŵyn y ddiadell;  
 A byddit yn helpu i rwymo'r eidionau,  
 A'n tad yn eu gwaedu ar ucha'r allorau."

A Chain a atebai yn sarug ei dymher,  
 "Pa brawf ydyw hyny bod Addaf yn arfer  
 Neillduo'r eidionau, a lladd ac aberthu?  
 Ond barna dy hunan. A wyt yn cymharu  
 Y Duw a ddywedodd, 'Gwnawn ddyn ar ein delw,'  
 I aflan ednogiaid sy'n hoffi cyrph meirw  
 A ffaidd archollion a gwaed?  
 Fe grewyd dy galon ar ddelw y Duwdod,  
 Ac anadl ei Ysbryd yw'r enaid sydd yn nod.  
 Adnebydd y Pensaer oddiwrth yr adeilad,  
 A gwel y Creawdwr yn ngoleu y cread.  
 A dyn ydyw uchaf berffeithrwydd holl anian,  
 Darllena am Dduw yn dy enaid dy hunan;  
 Ac onid yw'th galon yn darfod fel nifwl,  
 Ac arswyd a dychryn yn llethu dy feddwl,  
 Pan fydd dy ddeheulaw yn estyn y gyllell  
 I waedu y brasaf o blith dy ddiadell?  
 Ac onid yw brefiad yr oenig a leddi  
 Yn gwanu dy galon â phoenus dosturi?  
 Pa fodd y bydd gweithred sy' lawn o adgasrwydd  
 Yn mryd yr addolwr yn hoff gan yr Arglwydd?  
 A'i rhaid ydyw treisio y teimlad tyneraf,

Mewn trefn i fawrhau a mawrygu'r Goruchaf?  
 A dderbyn yr Arglwydd anrhydedd ei hunan,  
 Wrth dreisio y deddfau osodes yn anian?  
 Yn hytrach o lawer mae Duw'n ymhyfrydu  
 Yn gweled pob teimlad yn cael ei dyneru;  
 Ei holl greaduriaid, ei holl greadigaeth  
 Yn ffynnu'n wastadol yn hardd a theg odiaeth,  
 Yn ieuanc drag'wyddol, yn hyfryd a llawen,  
 Mewn dedwydd gynghanedd fel sêr y ffurfafen,  
 A mwyniant a moliant yn dyfod o newydd,  
 Fel tônau yr afon o hyd yn ddi-hysbydd.  
 Pe hoffai Jehofah mewn gwaedlyd aberthau,  
 Fe allai ef anfon ei fellt a'i daranau  
 I ddifa ar unwaith dy holl ddiadellau;  
 Ië, gwneuthur y ddaear yn allor ofnadwy,  
 A thywallt i'w mynwes ei danllyd ryferthwy,  
 A llogi'r mynyddoedd yn boethion offrymau,  
 Yn nghanol eu drylliog daranllyd ruddfanau,  
 Gan hyny, pa achos am waedlyd aberthau?"

Ac Abel atebai yn uthr-synedig,  
 "O herwydd ein pechod yr ydym golledig,  
 Marwolaeth sy'n erlyn ar ol anufydd-dod,  
 Ac angen yw'r unig ad-daliad am bechod;  
 Yr Hedicel ruthra i fyny'r mynyddoedd,  
 A'r haul newydd eni a ddua'n y nefoedd,  
 A phobpeth ddiflana fel nifwl boreuol,  
 Ond gyda Duw erys ei gyfraith drag'wyddol.  
 Ac ef ni all faddeu i neb am ei thori,  
 Heb osod ein pechod ar arall i'w gosbi;  
 Gan hyny ordeiniodd aberthau gwastadol,  
 I ninnau gydnabod ein cyflwr gresynol,  
 Ein hunain yn euog, a Duw yn dosturiol;  
 Ei gofio trwy aberth am gofio trugaredd,  
 A rhoddi i'r Arglwydd fawrhad a gogonedd."

A Chain wrthwynebus i siarad brysurai,  
 Ei galon fel cerwyn digofaint ddarllawiai,

Ymwrandaw ychwaneg ni allai 'i amynedd,—  
 “Yr ydwyt fel yna'n cyssylltu trugaredd  
 Wrth angeu a distryw. A ydwyt yn ateb  
 Y deillia trugaredd o ganol creulondeb?  
 A bywyd o angeu?—ddiobaith obeithion,—  
 A dyni di'r hyfryd o golyn ysgorpion?  
 A fegir yr oenig yn nyth yr eryrod?  
 Ac felly ni ddeillia trugaredd o ddefod  
 Sy' lawn o greulonder, yn groes i dy anian;  
 Dos di ac abertha fan acw dy hunan,  
 A minnau addolaf fy hun fel y dengys  
 Fy rheswm naturiol, a thuedd f' ewyllys.”

## III.

*Cain ac Abel yn aberthu, &c.*

I fysg y ddiadell arianwen a phrydferth,  
 Aeth Abel i ddewis y goreu yn aberth,  
 Ar goron yr allor yr oenig a laddodd,  
 A phlygodd ei ddwylin, a'i Dduw a addolodd.  
 A Chain yntau hefyd, yn ngwaethaf ei reswm,  
 Trwy orthrech cydwybod, a ddygodd ei offrwm :  
 Ei ysgub a gasglodd o ffrwythau y ddaear,  
 Fe'i rhoes ar ei allor â chalon anhygar,  
 I geisio lliniaru enynfa ei bechod,  
 A dofi colynau diarbed cydwybod.

Ac fel yr oedd Abel trwy ffydd yn addoli,  
 A'i wyneb i'r Dwyrain, a'r haul yn cyfodi,  
 Daeth angel gan 'hedeg drwy ddorau'r goleuni,  
 Gan rym ei adenydd cymmylau wasgerynt,  
 A throllid eu cyrau ar esgyll y corwynt;  
 A seithfwy gogoniant yr haul yn dysgleirio,  
 Tra'r Herodr nefol ehedlym ai heibio;  
 Ac yn ei ddeheulaw yr oedd megys thuser,  
 Neu gomed odidog o Ddwyfol ddysgleirder;



A'r fflam oddi arni raiadrai yn uchel,  
 Tra trwy y ffurfafen disgynai yr angel;  
 A'r genad a safodd yn agos i Abel  
 Ar bwysau ei edyn; a'r angel lefarai,  
 A'i 'madrodd fel miwsig adfywiol adlonai,  
 Fel llefair afonydd yn mhoethder y Dwyrain,  
 Fel llais yr ehedydd yn dadgan y plygain.

“O! Abel y cyfiawn, da, was, da a ffyddlawn:  
 I'th waedlyd aberthau Jehofah sy' foddllawn.  
 Yn mhellach, fy nghymmrawd, y byddi y cyntaf  
 O arwyr y ddaear a saint y Goruchaf;  
 Y cyntaf i waedu o blaid y gwirionedd,  
 A'th enw gymhella y gwan i arwredd;  
 Y merthyr yn dyoddef fendithia dy enw,  
 A'r gwron feddylia am danat wrth farw.  
 Dy enw fydd uchel yn mysg y cenedloedd,  
 Fel seren ragorol yn nghanol y nefoedd.  
 I syniad anufydd dy feddwl na ostwng,  
 Ond saf yn ddiysgog, a chwympe yn deilwng.  
 Y cyntaf i gwympe, a'r cynta'i gyfodi  
 Yn arwr gorchfygol, a Duw yn coroni.”

Ac yna estynodd ei law at yr aberth,  
 A'r fflam a esgynodd yn wen ac yn brydfarth  
 I ganol y nefoedd yn golofn ryfeddol,  
 A'r mŵg yn amgylchu yn goron addurnol,  
 Gan wasgar o amgylch ei beraidd aroglau,  
 Fel arogl meusydd cynhauaf y gweiriau.  
 Fel yna canmolid y ffyddlawn addolydd,  
 A'i enaid a lanwyd â nerth a llawenydd.

A'r angel ymlithrodd ar edyn 'stynedig  
 At allor ddiwaed yr addolwr ystyfnig;  
 O'i amgylch ymgasglodd y terwyn daranau,  
 Ac yntau yn gwgu trwy fŵg a chymmylau:—

"O! Gain, yr anufydd, am it' ddiystyru  
 Ewyllys Jehofah, mae yntau'n dirmygu  
 Dy aberth difywyd a'th weddi annuwiol."  
 Ac yna ymsaethai'r daranfoltt aruthrol,  
 Nes cwympto yr allor, a siglo y ddaear,  
 A Chain a lewygodd, a'i wyneb anhygar  
 A guddiai'n y glaswellt, a phan y dadebrodd,  
 Ac edrych o'i amgylch, yr angel ni welodd;  
 Ond arogl brwmstan a lanwodd ei ffroenau  
 Fel tawch o arsenig o geudod ogofau,  
 Yn dangos digofaint a mawr anfoddlonrwydd,  
 Am iddo ddiystyru ewyllys yr Arglwydd.

## IV.

*Gofid Adda ac Efa o herwydd anufydd-dod Cain.*

Lle llifa'r Euphrates ei miwsig murmuro,  
 Tros wely o berlau yn hyfryd ei swyn;  
 Rhieni dynolryw mewn ysbryd cystuddiol,  
 A gydymddyddanent yn nghysgod y llwyn.  
 Medd Efa, "Gwna Cain i fy nghalon i waedu,  
 Fe'm twyllwyd yn un ag y gwnawn ymhyfrydu,  
 A dysgwyl a wnawn y gwnai ef ein hadferu,  
 A gwneuthur cyfammod â Duw er ein mwyn.

"A thithau a'i dysgaist i arddu y ddaear,  
 Dy orchwyl cyntefig yn Eden mor fwyn;  
 Ond Abel anfonid i'r anial anhygar,  
 I ymladd â bleiddiaid, a gwylio yr ŵyn:  
 At Cain yr ymddygaist yn wastad yn dyner,  
 Ac yntau yn llawn o gyndynrwydd a balchder;  
 Ond Abel yn addfwyn wefusau bob amser,  
 Yn ufydd a pharod â ni i gyd-ddwyn.

"I Cain yr amlygaist y Ddwyfol ewyllys;  
 Ond wele, dirmygodd addoliad ei Dduw:  
 Jehofah ymwelodd yn Dduw eiddigeddus:  
 Rhag arswyd ei wyneb pwy erys a byw?

O! wylwch gymmylau, gruddfaned y daran,  
 Mewn anwyl obeithion mi fegais un bychan;  
 A'r fam a'i hanwesodd i'w mynwes â chusan  
 Yn awr a golytir, a'm calon sydd wyw."

Ac Addaf atebai, "Ein mab a lefarodd  
 Yn arw fygythiol wrth Abel ei frawd,  
 Am iddo ragori, a'r nef a gyfarchodd  
 A geiriau rhyfygus, cableddau, a gwawd;  
 Erioed i'w rieni'n anufydd y buodd,  
 Yn ymyl ei allor ei Dduw a ddirmygodd,  
 Am iddo ragori â'i frawd y cwerylodd,  
 Gan ymladd yn erbyn doethineb a ffawd."

Ac Efa chwanegai, "Pa fodd y rhof heibio  
 Heb yfed fy nghwpan o gariad at Cain;  
 Y bustl a'r wermod yn waddod sydd iddo,  
 A siomiant yn aros gobeithion mor gain.  
 O! Abel, fy ffyddlon, 'r wy'n teimlo fy nghalon  
 Yn troi tuag atat yn llawn o obeithion,  
 Gan daflu am danat ei rhaffau yn dŷnion,  
 I'th g'lymu wrth Efa â rhwymau y rhai'n."

v.

*Duw yn rhybuddio Cain.*

A'r Arglwydd a gofiodd am Abel a'i weddi,  
 A llogodd tosturi dros Cain yn ei galon;  
 O herwydd y cyfiawn dros Cain a weddiodd,  
 A Duw a wrandawodd o wynfa'r ysbrydion:  
 O'r man y preswylia mewn goleu diymgyrch,  
 A heuliau yn llewyrch dihysbydd ei goron,  
 A'u gosgordd yn afrif heb orphwys yn cynnal  
 Llawenydd diattal, a'u hemthyn yn gysson;  
 A'u blwyddyn drag'wyddol yn wyl orfoleddus  
 O ddawns ogoneddus, a myrdd o gerddorion!

"Awn," ebai yr Arglwydd, "at Cain, a chawn weled  
 Fydd iddo ystyried ei Dduw 'r hwn a'i creodd."

Gan hunan-ymsymmud trwy Ddwyfol weithrediad,  
 Yr orsedd o gariad yn awr a gychwynodd,  
 Fel llawer o foroedd i'r maith äangderau,  
 A chreadigaethau afrifed a guddiodd  
 Mewn hyfryd gynghanedd a chydgorde arswydus,  
 Y nef orfoleddus i gyd a symmudodd.

Dynesai'n ardderchog y Dwyfol ogoniant,  
 A chalon y ieuant gre'digaeth ddychlamai;  
 A chnydau o bêraidd rosynau godidog,  
 A llysiâu blodeuog o'r ddaear a darddai;  
 Ffynnonau raiadrent anthemau cynhyrfus,  
 A'r afon soniarus yn gerddgar a gerddai;  
 A'r niwl a ddyfrhai y gwastadedd y borau,  
 Hyfrytaf beroglau llysieuog a gariai  
 O feusydd yr aloes, calamus, a thynon,  
 A'r sawr yn awelon y nef a wasgarai.

Ac wele, y glaswellt yn llawn telynorion,  
 Yn fyw o gantorion a miwsig soniarus;  
 Cerddoriaeth drwy'r äang ffurfafen drydanai,  
 A mêl a lifeiriaï o'r creigiau haelionus;  
 A'r uchel fynyddoedd fel cewri anhydrin,  
 O yfed metheglin a gwinoedd cynhyrfus,  
 Mewn cyffro rhyfeddol a groch orfoleddent,  
 Ac uthr y llament i'w gwel'd yn arswydus;  
 Yn eithaf y ddaear taranai y floddest,  
 A chrechwen yn ngorchest y moroedd cythryblus.

A phan y trag'wyddol Jehofah lefarai,  
 Tywyllwch a guddiai ei Ddwyfol ogoniant;  
 Y nefoedd oruchel yn wylaidd ymgrymodd,  
 Y ddaear ddystawodd, afonydd safasant:  
 Ni chyrchai'r awelon eu pêr-anadliadau,  
 A'r gwryf-wanegau i'r eigion suddasant;  
 A Chain yntau hefyd i'r ddaear a gwypodd,  
 A'i ddwyllaw y cuddiodd ei wyneb dihaeddiant.

Ac angel a nerthodd ei enaid brawychus,  
 I wrando lleferydd ei Dduw gogoneddus :—  
 “ Paham y digllonaist wrth Abel y cyfiawn ?  
 Paham yr ymddigiaist wrth frawd mor gariadlawn ?  
 'Ba herwydd y syrthiodd dy hardd-deg wynebpryd,  
 A chuddio'i ffurfafen â chymmyl anhyfryd ?  
 Fel awel yn ennyn y fflamawg ryferthwy,  
 Ffolineb sy'n gyru digofaint ofnadwy.  
 Lliniared amynedd y fflamau angherddol,  
 Diffodded doethineb yr eisias difaol,  
 Na fydded i falchder gydennyn dy nwydan,  
 Rhag llygru yr anadl ro'es Duw yn dy ffroenau,  
 A'i throi yn fflam uffern i losgi byth ynod,  
 Dy enaid yn angherdd digofaint y Duwdod !  
 Os gwnai di ddaioni oni chai oruchafiaeth,  
 A derbyn anrhydedd ac uchel ragoriaeth ?  
 A minnau a gadwaf dy ddysglaer weithredoedd  
 Yn amlwg drag'wyddol fel sêr yn y nefoedd,  
 I fod yn arwyddion ac iawn gyfarwyddyd  
 I ddwyn y crwydredig i lwybr y bywyd.  
 Ond oni wnai dda, wele, pechod a orwedd  
 Yn ymyl fel gelyn yn llunio dialedd ;  
 Ac uffern a gloddi i'th enaid dy hunan,  
 Safn anferth yr hon a gau arnat fel taran ;  
 Disgyna'n ddisymwth, ac ni bydd ymwarded,  
 A'm enw trag'wyddol a selia dy dynged.  
 Ymostwng gan hyny i'th Grewr goruchel,  
 A bydd yn garedig a thirion wrth Abel ;  
 Rho ymaith dy feddwl annheilwng ac anfad,  
 A'r weithred ysgeler sy' genyt mewn bwriad ;  
 Ymgadw oddi wrthi, o herwydd mae Abel  
 Heb ammheu dy gariad yn byw yn ddiogel ;  
 A Chain ei frawd hynaf a barcha fe'n wastad  
 Yn rhwymau dyledus perthynas a chariad.”

A'r Dwyfol leferydd hyfrydsain a beidiai,  
 A Chain yn ymwrandaŵ yn mhell bell a glywai



Emynau Hosana a chân Haleliwia.  
 Ac anian i'w deddfau cyntefig ddychwela ;  
 Ond Cain a ddychrynodd, fe'i llanwyd â soriant,  
 Ac arswyd rhag mawredd y Dwyfol ogoniant.

## vi.

*Cain yn lladd Abel.*

Areiliai Abel ei arianwen fuches,  
 Ar äang fras wastadedd yr Euphrates :  
 Eb ef, " Mor dawel yw'r ddiadell wirion,  
 Yn cnoi ei chil wrth furmur tônau'r afon ;  
 Dedwyddach fil nag ydyw fy rhieni,  
 Ac anufydd-dod Cain yn eu trallodi,  
 A chan ofidio mynych edrych Efa  
 Ar fflamlyd byrth Paradwys, a galara  
 Gan guro'r llawr â'i thraed, a churo'i dwyfron,  
 A gwlitho'r ddaear gyda'i dagrau heilltion.  
 Fy mam, O! Dduw, cysura yn ei thrallod,  
 Ac adfer Cain i hyfryd ffyrdd ufydd-dod."

A Chain yn dyfod o'r tu cefn, yn clywed  
 Yn ddiarwybod idd ei frawd diniwed,  
 A ymgynhyrfai i dymherau digllon,  
 A'r bwriad erch a lechai yn ei galon.

" Pa fodd y tybi di dy hun mor gyfiawn,  
 Pan y gweddiit tros of fi mor radlawn ?  
 A oes deilyngdod ynot ti yn rhagor,  
 Pan gydnabyddai Duw dy waedlyd allor ?  
 Ceryddai fi am ddilyn yr ewyllys  
 A roddes ef ei hun o'm mewn i'm tywys.  
 Fel tônau'r afon fawr y mae'th gyfiawnder,  
 Ac hyd y sêr ymddyrrha crib dy falchder ;  
 A llonaid nefoedd yw dy hunanoldeb,  
 Pan y gosodit ti dy ragoroldeb  
 Rhwng Duw a mi, fel yna i gyfryngu.  
 Yr wyf yn hÿn na thi, ac yn teilyngu

Fy mharchu'n fwy, mwy hefyd yw fy mreintiau,  
Ac eiriol trosaf fi ryfygit tithau!

Hy! eiriol! mae fy nhad, fy mam, y nefoedd,  
Y ddaear faith, a Duw a'i holl alluoedd,  
O'th achos di'n cyfodi yn fy erbyn,  
Myfynnau mwy i tithau fyddaf elyn."

Ac yn ofidus yr atebodd Abel,—  
"Fy mrawd, na cheisia wneyd y Duw goruchel  
Yn Dad ac Awdwr dy weithredoedd aflan,  
A darddant o dy galon ddrwg dy hunan.  
Ac nid wyf finnau'n myned i gyfryngu  
Rhwng Duw a thi; yn unig eiddigeddu  
A wnaif dros enw Duw, yr hwn a gebli,  
A'i bur orchymyn ef yr hwn a dori;  
Ac wrthyt tithau'r ydwyf yn tosturio,  
Di gorsen grin ac ysig, feiddit herio  
Ystormydd dialeddau'r Hollalluog:  
Ei anadl sigla'r nefoedd fawr gwmpasog."

Yn daiog gan euogrwydd a chenfigen,  
Bytheiriai Cain draha i chwythu cynhen:—  
"Pa falais a'th annoga drwy rodresgar  
Ddefosiwn tuag at Dduw, ac iaith enllibgar  
Wenieithus i'th rieni, gan ymfladru  
Yn fy narostwng i a fy nirmygu.  
A chan dy fod yn ymddigrifo gymmaint  
Yn blino Cain, arllwysa dy ddigofaint;  
O! tyr'd yn awr gan sefyll yn fy wyneb,  
Cynhyrfa'th lid, crynhöa dy wroldeb;  
Ti ddrylliaist enau yr afonfarch erchyll,  
Fflamied lliidiogrwydd yn dy lygad teryll,  
Ac ymladd gyda mi, fy mrawd ymhongar,  
Ac onidê, dyrnodiaf di i'r ddaear."

A Chain fel yna a gymhellai Abel.  
Fel geirwon dônau ar ystormydd uchel,

Tymhestlai enaid Cain yn dra arswydus,  
 Ond Abel a'i ceryddai yn ddibetrus;  
 Ffolineb Cain yn dirion-lym geryddai,  
 A'r merthyr da fel hyn a ychwanegai:—  
 “Na ato Duw i mi roi anfad ddwylaw  
 Ar ddim y rhoddes ef ei ddelw arnaw:—  
 Difwyno y blaguryn a feithrinodd  
 A'i anadl ei hun, ac a'i bendithiodd!  
 Ysbeilio mam o'r cyntaf anwyd iddi!  
 Ac amlhau trallodion fy rhieni.  
 Ar wyneb mawr y nef pa fodd y tremiwn  
 A'm dwylaw'n goch gan waed y brawd a garwn?  
 Datoder rhwymau callestr y mynyddoedd,  
 A chandryll ymollyngant i'r dyfnderoedd;  
 Ond rhwymau cariad sydd ry gyssegredig,  
 A Dwyfol guriad bywyd nef-ddeilliedig;  
 Hwn wrth ewyllys Duw a ymddibyna.  
 Ysgubed yr ystorm pan gynddeirioga  
 Holl sêr y nefoedd i ddifancoll hollol;  
 Ond pwy a faidd ysbeilio'r Duw trag'wyddol  
 O hawliau cyfrin ei ewyllys Ddwyfol?  
 Ymgured bydoedd gan falurio'r cread,  
 Ond pa'm y lluni di'r fath weithred anfad,  
 Ac annog annaturiol ysgelerder?  
 O achos gwiw ufydd-dod i gyfiawnder  
 Y rhoddaist ti i'm herbyn i dy wyneb,  
 Ond cyn y gŵyraf oddiwrth uniondeb,  
 Y byddaf farw, a fy mywyd gollaf  
 Yn llawen tra fy niniweidrwydd gadwaf.  
 O! yn ei holl erchyllod deued angau,  
 Teilynga rhinwedd filoedd o fywydau  
 I'w phrynu gyda hwy. A phan ddaw diwedd  
 Fy mywyd i, anfarwol ydyw rhinwedd;  
 Ac yn y man y llifa 'ngwaed i'r ddaear  
 Saif rhinwedd yn fuddygol ac yn hawddgar.  
 Trwy weddi rhof fy hun yn awr i'r Arglwydd:  
 I'w enw boed gogoniant yn dragywydd.”

A Chain erlidgar a ddywedai'n wawdlyd,—  
 “Cyflwynaf di i Dduw yn aberth gwaedlyd;  
 A mynwes fawr y ddaear fydd yr allor,  
 A pha anrhydedd fyni di yn rhagor?  
 Am aberth gwaedlyd beunydd byddai'th gân,  
 Hyn, meddit ti, foddlonar' nefoedd lân.”  
 A chan gyfodi'r cwlbren mawr i daro,  
 (Fe deimlai'r ddaear megys tòn o tano,)  
 A'i rymus fraich rhoes ddyrnod tra dychrynlyd,  
 Gan daflu nerth a phwys ei gorph i'r ergyd.  
 A chwympai' frawd a'i ddwyllaw ar ei wegil,  
 A llifai'r gwaed o'i enau nid yn gynnwl.  
 “O Dduw, wrth Cain bydd dirion,” ebai Abel,  
 “Fy nhad a mam, O! cadw hwy'n ddiogel:  
 O! Cain, fy mrawd!”

A Chain a roes ochenaid:—

“Och, na thro arnaf dy angherddol lygaid.  
 Ni allaf oddef. Mae dy lym olygon  
 Yn fflachio'n brudd gan ing a chariad ffyddlon,  
 Yn erbyn fy enaid i yn fwy dychrynlyd  
 Nag yr erlidiais i dydi drwy 'mywyd.  
 Rhowch driphlyg wisg o gallestr am fy nwyfron,  
 A chen o ddideimladrwydd am fy nghalon;  
 Fy mynwes rwygwyd yn agored hollol  
 I saethau llymion dy drempiadau marwol.  
 O! ffoi a wnaaf. Ha, wele fe'n gogwyddo  
 Ei ben i farw'u awr! a âf fi ato  
 A rhoddi eusan ar ei wefus welw?  
 Gydwylbod paid! Y mae ef wedi marw;  
 Rhag imi doi gwaradwydd ar waradwydd,  
 Ac arllwys ar y marw fy ynfydrwydd.”

VII.

*Galar Adda ac Efa.*

Y newydd trwm yn awr ferwinai glust  
 Y dyner Efa, fel taranfollt tost;

A thua'r llanerch y prysurai 'i dad,  
 Lle hunai Abel yn ei wely gwa'd.  
 Yn groch ei waedd gan wir ddolurus loes,  
 Gan siglo'i ben, a churo'i ddwyfron ddwys,  
 Dywedai, "O! fy mhlentyn, Abel dda,  
 Mi ddysgwylaswn amgen ffawd i ti:  
 Y ffydd i'r hon yn ferthyr wyt yn awr  
 Gorono ben fy Abel fwyn a dewr;  
 Fy Abel, O! fy mhlentyn, Abel hoff."  
 Fel yna cwynai Adda, mawr ei aeth,  
 Ac ar ei ddwyfron gwasgai'i freichiau preiff  
 Mewn gofid. Efa hefyd yno ddaeth,  
 A phan y gwelodd hi ei Habel wyn,  
 Fel pan y bo adarwr yn y llwyn  
 Yn dryllio'r nyth a dwyn y cywion mân,  
 Ysgrechia'r fam gan 'hedeg yma a thraw,  
 A'i nodau prudd yn cymhell teimlad byw,  
 Nes teimlai'r heliwr awydd ei rhyddhau;  
 Yn brudd ei threm a'i breichiau tua'r nef,  
 A'i gruddiau'n llaith dyrchafai Efa lef:—  
 "Pa beth yw hyn, fy mhlentyn Abel fwyn,  
 Fel pren afalan llawn o flodau cain  
 Y'th gwmpwyd: O! ac nid oes obaith mwy.  
 Hiraethu bellach fydd fy mwyniant i.  
 Pa fynwes haiarn, a pha law ddiras  
 Darawai Abel? A pha ysbryd traws  
 A yrai Cain i guro'i frawd ei hun?  
 Ai nid ar dyner fronau Efa gun  
 Y'th fagwyd Cain? gan hyny o ba le  
 Y daeth yr anian greulawn hon i ti?"

## VIII.

*Melldigo Cain.*

A Barnwr y ddaear a ddeuodd i ddial  
 Y gwaed oedd o'r ddaear yn llefain heb attal.  
 Cyssawdian agorent o flaen y Creawdwr,  
 Fel pyrth dinas gadarn i dderbyn buddygwr.



Yr haul a lewygai, a phallai'i olygon,  
 Planedau ar feiliorn a aent fel ynfydion;  
 A nos a orchuddiai holl wyneb y nefoedd,  
 A'r eang ffurfafen yn dân fflamlyd ydoedd;  
 I benau'r mynyddoedd y moroedd ruthrasant  
 Calonau y creigiau trag'wyddol ballasant;  
 Gan danbaid ogoniant y Dwyfol ddialydd  
 Y deifid y glaswellt, y llogid fforestydd;  
 Ac enaid mawr anian ruddfanai, a'r ddaear  
 A grynodd, a rhuai'r taranau aflafar.  
 Fel llew yn ffyrnigo yn nghyffro'r elfenau,  
 A rhuthr ystormydd, a chrochwaedd taranau,  
 Gan orwyllt greulondeb, a dychryn, a rhyfyg,  
 Cain heria'r taranau, dywedai mewn dirmyg,—  
 "Gwatwerais fy nhad a fy mam yn eu gwyneb,  
 Dirmygais eu cyngor, a gwawdiais eu deiseb;  
 Nid mwy y dychrynaf rhag codi fy ngolwg  
 I wel'd gweledigaeth o dân a thywyllwg.  
 'R wyf fi mor ofnadwy a hithau yr awrhon,  
 Y gwaed ar fy nwyllaw, a'm gwyneb yn greulon;  
 Fy nhad a dry ymaith ei wyneb i wyllo  
 Fel geneth, pan wêl efe Cain yn d'od ato;  
 Fy mam a lesmeiria, a'm chwiorydd a redant,  
 Gan waeddi rhag gweled eu brawd yn ei soriant."

A llais o'r cymmylau a'r tân a lefarodd,—  
 "Mae Abel dy frawd di?" A Chain a ddywedodd,  
 "Ai fi yw ei geidwad gan ofyn o honod,  
 Pa le y mae Abel? Nid ydwyf yn gwybod."  
 "O! Cain, beth a wnaethost?" atebai'r Goruchel,  
 "Can's arnaf y gwaedda llef gwaed dy frawd Abel  
 O'r ddaear am ddial. Yn awr melldigedig  
 Wyt tithau o'r ddaear, dderbyniai'n garedig  
 Waed dy frawd Abel o'th law halogedig;  
 A'r ddaear a gerddi a fydd yn felldigaid,  
 Ni ddyry ei chynnyrch i gynnal dy enaid;  
 A chrwydriad a gwibiad a fyddi ar y ddaear,  
 Dy lwybrau yn ddyrys, a'th ffyrdd yn anhygar."



A Cain a atebai heb godi 'i olygon,  
 A'i freichiau a wasgai yn dŷn ar ei ddwyfron :—  
 “Mwy ydyw fy mhechod nag ellir ei faddeu,  
 Gan hyny mil henffych anobaith ac angeu ;  
 Yn iach i ardaloedd Euphrates ardderchog,  
 Yn iach i awelon o Eden flodeuog,  
 Yn iach i chwi feusydd a chnydau haelfrydig ;  
 A henffych ofidiau a daear reibiedig.  
 O ! haul yn y 'llewin machluda, machluda,  
 I orwel y Dwyrain byth byth na ddychwela  
 I loni y ddaear â bywyd y boreu.  
 Llochesaf yn mynwes tywyllwch ac angeu.  
 Chwi fellt a tharanau, erlidiwch, erlidiwch,  
 Mi ffoaf, O ! ffoaf i angeu a th'w'llwch,  
 I gilion difywyd, ogofau diffwrwythdra :  
 O ! am suddo yn eigion dyfnderoedd diddymdra.”

## IX.

*Angel yn cysuro Adda ac Efa.*

Ac angel ardderchog fel Dwyrain oleuni,  
 Gyfarchai ein cyntaf drallodus rieni :—  
 “ Am Abel y cyfiawn, paham y galerwch ?  
 Efe a goronwyd â bywyd a harddwch :  
 Eistedda'n fuddygol ar sedd anfarwoldeb,  
 Gan wyllo eich helynt â ffyddlaw'n ddyddordeb.  
 Ac fel ag y mae o wroniaid y ddaear  
 Yn gyntaf i'r frwydr, a marw'n 'wyllysgar,  
 Bydd, megys y seren yn hyfryd lewyrcha  
 Yn euraidd belydrau yr haul pan fachluda,  
 Yn nghynt yn ymddangos ar oriel gogoniant,  
 Yn decach a chlaerach na'r oll a ddilynant,  
 Na'r oll yn anwylach gan feibion y ddaear,  
 A'i gylchrawd yn nes i ogoniant digymhar  
 Creawdwr y bydoedd, a Haul anfarwoldeb,  
 A'i Ddwyfol weniadau yn lloni ei wyneb.”  
 A'r ddau a ddiolchent i Dduw eu Creawdwr,  
 A'i enw gyhoeddent yn gyfiawn fel Barnwr.

Ac Efa ddywedai, "Maddeua fy hyder,  
 Cain hefyd oedd anwyl i'm calon bob amser:  
 Ei fam ydyw Efa; a'i chalon sy'n llosgi  
 O serch tuag ato er maint ei ddrygioni.  
 Oddi arnaf y rhwygwyd fy Abel garedig:  
 A raid colli hefyd fy nghyntafanedig?"  
 Ac Adda chwanegai, "O! na byddai rhinwedd  
 Yn awr yn fy ngweddi i droi y dialedd;  
 Ond nid oes gwerth ynof i gynnyg fy hunan.  
 Trown at yr Iehofah, ac yn ei drugaredd  
 Yn unig mae gobaith am arbed y truan."

A'r angel atebodd, "Y Duw Hollalluog,  
 Yn gyfiawn fel Barnwr, a farnai'n drugarog;  
 Tra eto'n ceryddu, ei Ddwyfol amddiffyn  
 I Cain a addawai rhag malais un gelyn,  
 A'i nod roddes arno gan wystlo'i anrhydedd,  
 A Chain, os ymbilia, dderbynia drugaredd."  
 A'r tri a fawrygent y Duw Hollalluog,  
 A'i enw gyhoeddent yn Farnwr trugarog.

---

### ENGLYNION I'R ASYN.

Yr asyn sydd brudd ei bryd,—a'i olwg  
 Yn wael a difywyd:  
 Ond boddlawn yw ef hefyd,  
 Yn môn ei glawdd y mae'n glyd.

Ei wely'r nos yw'r ffosydd,—ei borthiant  
 Ynt berthi neu friwydd;  
 Er yn sal ei ran sydd,  
 Mae hwn dan ei bwn beunydd.

Un ydyw ef yn llawn dyfais,—anhydrin,  
 Yn edrych am falais;  
 Llwyd ei liw, hagr-liw, egr-lais,  
 Ac hir ei glust, cryg ei lais.

ENGLYN BYRFYFYR I MISS R——, A'R  
GWALLT MELYN.

EIRIAN dlos rian oreuwedd—wisgi,  
Un ysgafn hynawswedd,  
Heb ôl nych—gwyh yw ei gwedd,  
Y seren fwyndlos eurwedd.

Y TYMHORAU.

WELLE y tymhorau ydynt  
Ogoneddus weision Duw,  
Sydd yn gweini ei ymweliad  
Grasol iawn â dynolryw.  
Daw y gauaf gan farchogaeth  
Yn y groch ystorom gref;  
Teithia tros yr oer fynyddoedd,  
I unioni ei lwybrau ef.

Brysia'r gwanwyn yn cyd-ddilyn,  
Grymus megys nwyfus gawr,  
Ac udgana ar y dyffryn  
Nes y deffry'r goedwig fawr:  
Llama tros y bryniau uchel,  
A chynnulla'r wŷn yn nghyd,  
A chyhoedda fod yr Arglwydd  
Eto'n dod i 'mwel'd â'r byd.

Daw yr hynaws haf yn araf,  
Gwisga rosyn ar ei fron,  
Daw'r llancesau i'w gyfarfod,  
Siriol, i'w groesawu'n llon:  
Dywed wrth y Brif-weinidog  
Anian hardd-deg am lanhan,  
A phar'toi ei phalas hyfryd,  
Fod ei Harglwydd yn neshan.

Y cynhauf a gyhoedda  
 Fod yr Arglwydd wedi d'od,  
 Gan gwhwfan ei faneri  
 I arddangos yno'i fod :  
 Hael wasgara ei anrhegion  
 O ewyllys da y nef,  
 A bendithir holl deuluoedd  
 Dyn *yn ei ymweliad ef.*

---

### HYFRYD DDYDDIAU MAI.

HOFFAF ddyddiau cyntaf Mai,  
 Hoffaf eu mwynderau chwai,  
 I'm eu coffa'n hyfryd sydd,  
 Fe'u ganwyd ddydd Calanmai.

Adeg ebol, lloi, ac ŵyn,  
 Yn cydchwareu ar y twyn;  
 A chynghanedd hafddydd hir  
 A glywir yn yr irlwyn.

Adeg chwilio clawdd a pherth,  
 Adeg chwilio mwy na'r gwerth;  
 Nyth bach crwn a phedwar wy  
 Yw'r gwobrwy am y drafferth.

Hedydd llon a'i fron heb friw,  
 Esgyn ar ei aden wiw;  
 Pêr ei gân rhwng gwyrdd a gwyrdd,  
 O'i bwlpudd glaswyrdd glwyswiw.

Tyner flagur o liw aur,  
 Telid yn yr heulwen glaer;  
 Gwiall wedi eu gwisgo'n deg,  
 A rhoddion megys rhuddaur.

Yn y gwllithyn bychan crwn,  
 Bydd yr haul i'w wel'd yn hwn,

Foreu Mai, bydd yn ddiau,  
Un haul yn heuliau fyrddiwn.

Gwyrdd a gwyrdd yw lliw pob pren,  
Gwerdd y ddaear, tyner nen;  
Blagur tyner mantell dlos  
Ymdaena dros y dderwen.

Taenir blodau hyfryd cain  
Yn fraith frwydwaith ar y drain;  
Gwisgir canghau'r coed a'r berth  
A phob prydfferthwch mirain.

---

#### I LODES DEG.

Mi adwaen eneth hawddgar,  
Y lonaf ar y ddaear:  
Mwy claer na phur oleuni'r dydd  
Llewyrch ei llygaid lliwgar.

Ei lliw, ei lliw yn burwyn,  
Fel blodau cynta'r gwanwyn;  
Ei llaw yn wenach, wenach sydd,  
Nag eira mynydd Berwyn.

'Rwy'n hoffi'r fun felusfin,  
Brydferthaf yn mro cenin;  
A mwy dymunol yw ei phryd  
Na hyfryd wedd Mehefin.

I'r lodes lon 'rwy'n canu;  
Mor deg y mae hi'n camru!  
A thyf pob blod'yn yn ei dro  
O'r man y b'o hi'n sangu.

---

#### Y CRACH-FONEDDWR.

Yr adar difyr ar brydnawn  
Delorant yn y coedydd,

A'r gwartheg borent ar y ddôl,  
 A'r defaid ar y mynydd,  
 A'r haul mawreddog elai lawr  
 Tros ymyl Môr y Werydd.

Briallu wenent ar y clawdd,  
 A'r gwrychoedd gan rosynau,  
 A'r llygaid dydd yn llawer mil  
 A gauent eu hamrantaau ;  
 A chân y gwew gyda'r hwyr  
 Adseiniai yn y cyman.

A chyda glân yr afon Wen,  
 Y rhodiai dau mewn cariad ;  
 Goronwy gyda chalon drom,  
 A phrudd-der yn ei lygad ;  
 Ac wrth ei ochr ef yn dÿn,  
 Yr ieuanc hardd Angharad.

Ac ebai'r llanc Goronwy ddewr,  
 "Ni wena'r lloer yn dirion,  
 Ond heno'n unig arnom ni,  
 A byddaf gyda'r Saeson ;  
 Wrth feddwl gado 'ngeneth wen,  
 Yr wyf yn tori 'nghalon.

Dy dad a fynai i mi fyn'd,  
 Mi wn ba achos hefyd :—  
 Y mae gan arall aur a da,  
 Gan innau nid oes golud :  
 Ond ni all neb dy barchu'n fwy,  
 Na'th garu'n well, anwylyd.

A dybi fod fy meddwl i  
 Fel drych i edrych ynddo,  
 A'th ddelw dithau'n hardd yn hwn,  
 Pan fyddi'n agos ato ;  
 Ond wedi troi fy wyneb draw,  
 Y gallaf dy anghofio.



Fe'th gofiaf di wrth wel'd y wawr,  
 A'r haul yn ei fachludiad,  
 A'r llygaid dydd a sêr y nos,  
 A'r lili wen a'r lleuad :  
 A threuliaf ddyddiau f' oes, fy merch,  
 Mewn hiraeth mawr am danad."

"Fy machgen mwyn," atebai hi,  
 "'Does arall ar y ddaear  
 Byth a ddewiswn ond tydi,  
 Mewn gwynfyd ac mewn galar ;  
 Ni welais, ac ni fynaf wel'd  
 Un gwyneb byth mor hawddgar.

Nag edrych *di* ar degwch gwedd  
 Llancesau Saeson diwall ;  
 Dy galon cadw di i mi  
 Yn ddiwair ac yn ddiball :  
 Mi eiddigeddwn wrthyt braidd  
 Am wenu ar neb arall."

"O! na, nid felly," ebai'r llanc,  
 Gan wasgu ei Angharad,  
 Ac ymgusanai'r ddau yn awr  
 Yn mhur hyfrydwch cariad ;  
 A'r naill yn llygad byw y llall,  
 Ddarllenai serch-ymlyniad.

## II.

Ni awn i Blas yn Nôl  
 I weled gŵr boneddig,  
 Sy' newydd dd'od i'r wlad,  
 Os bydd mor ostyngedig ;  
 Y mae o'n gwisgo blew  
 Yn fondo dros ei enau,  
 Yr hyn a brawf ei fod  
 Yn ŵr o uchel achau.

A chyrlen bobtu 'ben  
 Yn arwydd o anrhydedd ;  
 A chadwen ar ei fron,  
 A chylchau am ei fysedd :  
 Gan hyny mae'r bys bach  
 Sy'n gwisgo modrwy emog,  
 Yn codi'n uwch na'r lleill,  
 'R un fath a chynffon ceiliog.

Addysgir plant y cwm  
 I'w gyfarch wrth fyn'd heibio,  
 A chofio d'wedyd Syr  
 Wrth siarad gydag efo :  
 Cyfarcha pawb 'r un fath  
 Y gŵr boneddig teilwng ;  
 Ac ambell i hen wraig  
 Bron syrthio wrth ymostwng.

Y mae'r masnachwyr oll  
 Yn ofni wrth ddynesu  
 Ger bron ei fawredd ef  
 I gynnyg ac i werthu :  
 A mawr y gofal sydd  
 O'i gyfarch ef yn weddus,  
 A phryder mawr pa fodd  
 I'w deitlo'n anrhydeddus.

Fe brawf ei bibell hardd,  
 Fel odyn galch yn mygu,  
 Y fath ysgolion gadd,  
 A'i ddygiad da i fynny :  
 Mae dull boneddig hwn  
 O regi'n fwy na'r cwbl,  
 Yn profi ar un waith  
 Ddiwylliant pur ei feddwl.

## III.

Gwrandewch, yn y buarth mae Dafydd y gwas,  
 Ac Elin y forwyn yn siarad :—

“On'd yw yn beth rhyfedd fod un o fath hwn  
 A'i fryd ar briodi Angharad?  
 Angharad fydd lawen o gaffael y fath  
 Foneddwr o'i wadn i'w goryn.”  
 “Bydd lawen,” eb Elin, “a siriol ei gwedd,  
 Fel lili'n cusanu llyndysyn.”

A Dafydd atebai, “Paid siarad mewn gwawd,  
 Mae hwn yn foneddwr urddasol;  
 Nid ydyw yn siarad 'r un fath a dyn tlawd,  
 Mae ganddo fo lediaith glasurol:  
 Mae osgo'i gerddediad yn dangos yn rhwydd  
 Bod yn ei wytheni waed uchel;  
 A chlywais ddywedyd ei fod wrth ei swydd  
 Yn Gaptan ofnadwy mewn rhyfel.”

Ac Elin atebai, “Ryfeddwn i fawr  
 Nad yw o yn Gaptan ardderchog,  
 O herwydd y mae yn y drychau bob awr  
 Yn gwneuthur ystumiau cynddeiriog:  
 Y mae o'n ymarfer bob dydd yn y drych  
 Wrth wenu yn ngwyneb ei ddarlun,  
 I osod ei hunan yn wrol a gwyh  
 Yn ngwyneb ofnadwy y gelyn.”

“Mae hwn,” ebai Dafydd, “yn gyfoeth i gyd,  
 A chreigiau o aur ar ei elw;  
 Ond nid yw Goronwy'n etifedd dim byd,  
 Ond mochyn a thomen o ludw.”  
 Ac Elin atebai, “Ei eman a'i aur  
 Sy'n llwytho ei fysedd modrwyog;  
 Rhaid iddo gael cadwen, a modrwy'n ei drwyn,  
 Pan gaiff ef Angharad oludog.”

A deuodd hen wreigan, un siriol a theg,  
 A glendid oleuai ei gwyneb;  
 “Pwy ydyw hon acw?” gofynai y llanc,  
 “Mam weddw Goronwy,” yr ateb:

“Yn weddw ac unig, heb briod na brawd,  
 A cholodd amddiffyn Goronwy;  
 Elusen fydd rhoddi i'r weddw dylawd,  
 Hi haedda ychydig gynnorthwy.”

“Yn awr,” ebai Dafydd, “ychwaneg o'i haek  
 Ragorion a gaiff eu hamlygu;  
 Rhyw rinwedd o'r newydd i'r golwg a ddaw,  
 Mor hael y bydd iddo gyfrannu!”  
 A daeth y boneddwr, a'r weddw yn syn  
 Ofynai yn dra gostyngedig:  
 “Dos ymaith, pa achos fod carpes fel hyn  
 Yn fwgan wrth dŷ gwr boneddig?”

Mae'n gas gan fy nghalon i geriach difoes,  
 O! diolch fy mod i 'n foneddwr!”  
 Yn brudd ac yn ddystaw o'r buarth y troes  
 Y weddw dosturus ei chyflwr:  
 Ei araeth arllwysid yn erchyll ei sŵn,  
 Fel Etna'n ofnadwy ei ruthur;  
 Eu harglwydd a regodd, cyfarthodd y cŵn,  
 Yn nghydgord hynawsedd eu natur.

Ha! dacw'r boneddwr yn dyfod yn sionc,  
 “Hai, Halo! tyr'd yma di, Deio,  
 Cyfrwya y ceffyl.” A throes ar ysbone  
 I'r parlwr i 'nol ei dybaco.  
 Cyfrwywyd y ceffyl, a daeth y gwr mawr,  
 Esgynodd ar gefn y march buan;  
 Eisteddai fel alarch, yn deg fel y wawr,  
 Wrth gychwyn i ddangos ei hunan.

O! dacw fo'n myned fel comed ar dân,  
 Gan godi ei gynffon foneddig;  
 Y mae gwir foneddwyr fel gwybed yn Awst,  
 Yn gyru anifeiliaid yn ffyrnig:  
 Fe neidiodd y llidiart, wel, dyna i chwi gamp,  
 O! safed y byd i ryfeddu;

Carlama, carlama, fel pe bai ar ffo,  
Rhag ofn myn'd a fo i'r gwallgofdy.

Carlama gan wenu a gostwng ei ben  
Yn foesgar i bawb a'i cyferfydd;  
Gan ddangos er bod yn foneddwr o fri,  
Hynawsedd ei natur ddieilfydd:  
Fel prysur gornchwigen yn eithaf y waen  
Yn cyfarch bob un gyfarfyddai,  
Gan ennill eu sylw yn benaf o ran  
Y blinder diorphwys a barai.

Cyrhaeddodd i fuarth Bron Hyfryd yn awr,  
A chroesodd y trothwy yn wisgi,  
Fel medrus bladurwr yn tori gwair rhos,  
Ymgrymodd yn laes i'r cwmpeini;  
A thrwy ei olewaidd wallt tynodd ei law,  
Aroglai ei dalcen enneiniog  
Yn hyfryd fel peraidd awelon brydnawn,  
Yn dyfod o Garmel yn llwythog.

Fel Raphael yn Eden yn ysgwyd ei blu,  
Pan welodd y bardd ef yn disgyn;  
Wrth roi ei ddeheulaw i bawb yn y tŷ,  
A throelli o amgylch yn sydyn,  
(Gofaler am sylwi ar bobpeth a wnel,  
Mae pobpeth a wnelo yn bwysig,)  
Fe lenwid y neuadd âg arogl pêr  
O Asia, Arabia, ac Affrig.

Yn wengar cyfarchodd Angharad y fân  
A llawer o eiriau dysgedig;  
"Yn fuan daw'r adeg i ninnau gyd-fyw,  
A byw yn hapuswych a diddig:  
Cawn fyw yn y gauaf yn llondid y dref,  
A byw yn y wlad yn Mehefin;  
A byw yn foneddig mewn llawnder a bri,  
Yn mhell o gyfathrach y werin."



“Gwell genyf,” eb hithau, “hen dyddyn fy nhad,  
 Na’r wychaf o drefydd y deyrnas,  
 A chwmni diaddurn tylodion fy ngwlad,  
 Mae coegedd i’m henaid yn adgas:  
 Yr ŵyn a’r mynyddoedd i mi yn yr haf;  
 A phan ddaw y gauaf anghenus,  
 Arosaf yn gysur i dlodion y cwm,  
 A’u gwisgo fel Dorcas haelionus.

Ac yntau siaradai a gwenai mewn serch,  
 Gan droelli y blew ar ei wefus;  
 A chwerthin ac edrych yn llygaid y ferch,  
 I ennill ei sylw cariadus:  
 Ei wênau effeithient yn ddwys arni hi,  
 Gan doddi ’mysgaroedd Angharad,  
 Fel ag yr effeithia cyfarthiad y ci,  
 Ar efydd-deimladan y lleuad.

## IV.

Ac Elin alwai Deio’r gwas,  
 Gan chwerthin yn ei hunan,—  
 “O! tyr’d i weled llythyr serch  
 At y boneddwr truan.

“Mi glywais fod Angharad fwyn  
 Yn derbyn maith lythyrau  
 Oddiwrth Goronwy’n fynych iawn,  
 A’u darllen gyda dagrau,”

“Na,” ebai Dei, “mae gan y llanc  
 Ryw Saesnes falch yn gariad,  
 Ac am briodi rhag ei flaen,  
 O ddigter at Angharad.”

“Fe guddiodd y boneddwr ddoe,  
 Y llythyr yma, Deio,  
 A minnau’n gweled, eis i’w nol,  
 I wybod beth sydd ynddo.”

Dadblygai'r naill y llythyr hwn,  
 A'r naill ddechreuai ddarllen;  
 'R oedd llawer iawn o hono'n brint,  
 Ychydig yn ysgrifen.

A mawr yr awydd oedd am wel'd  
*Fy anwyl anwyl gariad*;  
 "Pw," ebai Elin, "ni ddaeth hwn  
 Erioed oddiwrth Angharad.

Ond enw'r sirydd," ebe hi,  
 "A welaf wrth ei waelod;  
 Ac wrth ei ben mae coron hardd,  
 A chwpl o fwystfilod."

"Yn awr mae'n eglur," ebai'r llanc,  
 "Gwr mawr yw ei arglwyddiaeth,  
 Pan fyddai'r sirydd ac efe  
 Yn cynnal cydohebiaeth."

"Yn nghwrt y sir," 'chwanegai'r ferch,  
 "Mae'r llythyr hwn yn gwysio  
 Y gwr boneddig, dybiwn i,  
 Heb ffaelu i fod yno."

"Mae'n debyg iawn," atebai'r llanc,  
 "Bod rhaid ei gael yn ustus,  
 Neu ynte'n farnwr ar y fainc,  
 Mewn rhyw faterion dyrys."

"Ac edrych eto," ebai'r ferch,  
 "Rhyw gyfrif mawr o arian;  
 Ha, ha, y mae o yn y cwrt!  
 Ha, ha, 'r boneddwr truan."

"Taw ffolog," ebai'r llanc, "am ddal  
 Clorianau'r gyfraith burlan,  
 A rhoddi ei ddifrifol farn,  
 Y derbyn ef y cyfan."

“Ni waeth i ti heb siarad mwy,  
Yr wyf yn awr yn gwybod  
Fod hwn yn ŵr boneddig pur,  
Mae'r byd yn ei gydnabod.”

v.

Ac aeth y boneddwr ar neges arbenig,  
I weled Angharad drachefn yn y Fron;  
(O! wele 'i gerddediad ardderchog a phwysig  
Fel nofiad gwybedyn wrth farchog y dôn:)  
“Dydd da i Angharad, fy mhrydferth Angharad,  
A llawer o ddyddiau a mwynder i chwi;  
Mae purdeb rhianaidd yn gloewi eich llygad,  
Fe'ch crewyd yn briod gyfaddas i mi.

Mi fum yn eich gofyn i'ch tad heddyw boreu,  
A chawn yn ddiogel briodi mewn bri;  
Diolchai am weled, cyn gwyro yn angeu,  
Ei ferch yn priodi boneddwr fel fi:  
Ac ar y dydd cyntaf o Hydref pennodwyd,  
Os yw fy anwylyd yn synio 'r un peth,  
Cynnaliwn briodas, y wychaf a welwyd,  
A'r dulliau newyddion ddilynwn heb feth.”

“Mae'r diwrnod yn ffodus,” atebai Angharad,  
Gan feddwl yn ddystaw, “*pa beth yw y dyn?*”  
“Yn erbyn y diwrnod nid oes gwrthwynebiad,  
Mae'r cyntaf o Hydref cyn gystled ag un;”  
Ac yntau atebai, “A chwithau, anwylyd,  
A wnaethech y noson dywyllaf yn ddydd,  
Fel gwawr-ddydd yn dyfod o byrth y Dwyreinfyd,  
A haul y dydd hwnw myfynnau a fydd.

Yn awr y prysuraf o flaen y briodas  
I weled fy nheulu a gweled fy ngwlad;  
A gweled a ydyw pob peth yn gyfaddas,  
A rhoddi gorch'mynion, a threfnu fy stâd:  
Ac yna dychwelaf yn nghwmni dau gefnder,  
A byddant yn weision priodas i mi;—

Gwŷr ieuainc dilynwyd, o addysg a choethder,  
Yn medru moesgarwch ac ymddwyn mewn bri.

Pob un o'm perth'nasau a ddygwyd i fyny  
Mewn moesau dilynwyd cymdeithas a dysg :  
Gan fyw'n neillduedig ; ac nid oes gan hynny  
Un dwlyn, na chrebyn, na chrach yn eu mysg.  
Gan hynny gwahodddwn gwmniaeth ddewisol,  
Nid llawer i lwytho y byrddau yn llawn ;  
O herwydd yr ydwy'n cashau yn wastadol  
Gymdeithas aflafar gwerinos diddawn.

Ni allant gydeistedd i ginio yn weddaidd,  
Ond rhuthro fel cenfaint o foch at y cafn,  
Nes peri diflasdod i ŵr boneddigaidd,  
Nac estyn eu bwyd yn briodol i'w safn :  
Hwy ydyw'r gwroniaid sy'n llenwi'r carchardai,  
Neu yn y tylodtai o'u mebyd i'w bedd ;"  
"A gwŷr pendefigaidd yn llenwi'r gwallgofdai,"  
Atebai Angharad yn wylaidd ei gwedd.

Ac yntau roes iddi hi gusan rhodresol,  
Gan fod yn rhy foesgar i wasgu'n rhy dŷn ;  
"Mi wnaf i chwi anrheg o fantell ddewisol,  
A gŵn y briodas o bali gwyn, gwyn.  
Cawn fyned ar ymdaith ar ol y briodas,  
Angharad gaiff weled holl gyfoeth ei gwr :  
A byw yn uchelwych mewn arddull ac urddas,  
Ffarwel, byddwch barod, a chofiwch chwi'n siwr."

Ac felly'r boneddwr i'w ymdaith farchogai,  
Ei farch ysbardynai a gyrai ar frys.  
"Caf fenthyg peth arian gan rywun," dywedai,  
"I dalu fy nyled rhag myned i'r llys,  
Ac felly mi gadwaf fy enw'n ddihalog,  
A chadwaf fy ngherbyd rhag myned i'r llaid ;  
Ac wedi priodi Angharad gyfoethog  
Caf dalu yr echwyn yn ol pan fo raid."

## VI.

Bu mawr y darparu a'r drafferth,  
 A mawr y glanhau a'r par'toi;  
 A'r holl weinidogion yn rhwbio,  
 A gweithio yn dra diymdroi.  
 Gwnio dilladau ardderchog,  
 I dderbyn boneddwr mor gain;  
 A llon'd y pobtâi o ddysgleidiau,  
 A seigiau 'n aroglï 'n y rhai'n.

Cyn gwawrio y cyntaf o Hydref,  
 Cyn agor amrantau y wawr,  
 A'r nos ar ei gorsedd elorddu 'n  
 Caethiwo holl anian yn awr,  
 Fe gurid wrth ddôr y Fron Hyfryd,  
 Ymweliad anhymig yn wir,  
 A'r cŵn a gyfarthent yn arw,  
 A churai'r ymwelydd yn hir.

A daeth yr hen ŵr idd y ffenest',  
 Gofynodd yn gryglyd a chras,  
 "Pwy sy' 'na?" atebid o tanodd,  
 "Myfi wyf Oronwy y gwas,  
 A chyda mi yma mae lodes,  
 Mun luniaidd, a lliwgar, a llon,  
 Y decaf anadlodd yn Lloegr,  
 Prydferthwch holl Brydain yw hon.

Yr ydwyf yn awr am briodi  
 Fy Saesnes olygus ddinam,  
 A chadw'r briodas yn llawen  
 Ar aelwyd ddiaddurn fy mam;  
 A gofyn cymhwynas yr ydwyf,  
 'D oes undyn mor addas a chwi,  
 A ddewch i gyflawni y ddefod  
 O roi y ferch ifanc i mi?

Ac hefyd dyweda'r offeiriad  
 Rhaid i mi briodi cyn dydd,



Myn'd drwy y gwasanaeth yn frysiog,  
 Er mwyn cael yr eglwys yn rhydd  
 I'w gwisgo â dail ac â blodau,  
 Gwneyd pontydd a phyrth yn mhob man,  
 Ar gyfer priodas pendefig  
 Sy' heddyw i fod yn y Llan."

Ac felly yr aethpwyd i'r eglwys,  
 Heb haul yn tywynu, na lloer;  
 A gwisgai y Saesnes ei gorchudd,  
 O herwydd y barug oedd oer.  
 "Oferedd yw darllen iaith Cymru,  
 Ni ddeall hi sillaf o'r aeg;  
 'Rwy'n dysgwyl ar ol fy mhriodi  
 Y dysga hi siarad Cymraeg."

Darllenwyd y ffurfiau yn Saesneg,  
 Ac felly priodwyd y ddau;  
 Eisteddai'r amaethwr o'r neilldu,  
 Heb dybio'n werth ganddo neshau.  
 "Dewch gyda myfi i'r Fron Hyfryd,  
 Cewch roesaw ar gychwyn eich taith:  
 Boed i chwi ddedwyddwch a llwyddiant,  
 A'ch bywyd fo melus a maith."

Ni chanwyd y clychau henafol,  
 Nes dadsain holl greigiau y lle,  
 Ac nid oedd y plant a'r cym'dogion  
 Yn bloeddio hir oes a hwre;  
 Na phontydd i fyned o danynt,  
 Ond pefriai Caergwydion yn dêr,  
 A'r wawr a ddadblygodd ei baner,  
 Ac arni hi filoedd o sêr.

A chanai myrddiynau o adar  
 Nes seiniai y ddaear i gyd;  
 A'r cyntaf o Hydref a wawriodd,  
 A'i wyneb oleuodd y byd:

A'r haul a brysurodd i d'w'nu  
 Ei ddelw ar fodrwy y ferch,  
 Fel byddai portread ei phriod  
 Yn ngwyneb anwyliaid ei serch.

## vii.

Ymgomiai Elin gyda Dai  
 Y cyntaf ddydd o Hydref:—  
 "A wyddost ti? dy arglwydd cain  
 Sy' wedi dyfod adref.

A dau foneddwr ddaeth o'i flaen,  
 Pan dorodd gwawr y boreu;  
 Mae'r ddau yn byw 'n y seler win  
 Ac yn y parlwr goreu."

"Dau gefnder iddo ydyw 'rhai'n,  
 A gweision y briodas;  
 Fe'i clywais ef yn dweyd," medd Dai,  
 "En bod yn wŷr o urddas."

"Maent yn foneddwyr o ystâd,  
 Ac heddyw'n d'od i'w meddiant,"  
 Atebai Elin gyda gwên,  
 "A chanddynt sêl a gwarant.

O! ha, ha, ha, ni fu erioed  
 Ddim gweision mor gyfaddas:  
 Ond er y cyfan daeth y tri 'n  
 Ddiweddar i'r briodas.

Cyn toriad dydd, Angharad fwyn  
 Sydd wedi cael ei chymhar;  
 Mae pawb yn llawen yn y Fron,  
 Ac yntau 'n rhy ddiweddar.

Cynghanedd yno sydd, a dawns,  
 A'r tad wrth fodd ei galon:  
 A dau fwmbeili yn Mhlas yn Nol  
 Yn bwyta y danteithion."

A'r cain foneddwr yn yr ardd  
 A sugnai fŵg tybaco,  
 Ca'dd feddylddrychau lawer iawn  
 Yn mŵg y bibell hõno.

“Ni fyddai weddus i myfi,  
 Na theilwng o'm huchelder,  
 I ollwng deigryn ar fy ngrudd  
 Na dangos arwydd prudd-der.

Fel megys wedi machlud haul  
 Y bydd y pryfaid golau  
 Yn mol y clawdd, yn nghanol nos,  
 Yn dangos eu cynffonau,

Y mae y tlodion wrth eu bodd,  
 A mam Goronwy hefyd;  
 'R wyf yn ei chofio hithau 'n wir  
 Yn dlodaidd iawn ei chlefyd.

Er hyny, aur yw aur o hyd,  
 Beth bynag fo ei gyflwr;  
 Yn mhob sefyllfa yn y byd  
 'R wyf finnau yn foneddwr.

Mi geisiaf eto ddrillad gwych,  
 A chadwen aur yn dorchau;  
 Ni chaiff cywilydd blygu 'mhen,  
 Na gwrid ammharu 'ngruddiau.

Os nad yw ocheneidiau prudd  
 Yn deilwng ac yn weddaidd,  
 Mi regaf o fy nghalon, gwnaf,  
 Mae hyny 'n foneddigaidd.”

Pan roddodd ei ofnadwy reg,  
 Yswatiai 'r anwn ddreigiau:  
 Breninoedd neidient mewn gwyllt fraw  
 Oddiar eu haur orseddau.

“Ni'm dawr yn nghylch Angharad chwaith  
 Os collais i y feinwen,  
 Ni chafodd hithau ond y gwas,  
 A cholodd fi'n y fargen.

Diddawn, diaddurn yw ei wisg,  
 A diddysg yw y gwrengyn ;  
 Yn nghwmni boneddigion coeth  
 Y byddai fel ynfytn.

Ha, ha, a bydd ei blant, ha, ha,  
 O'u tad yn deilwng debyg,  
 A'u dwylaw megys talpiau mawn,  
 Anhardd i'w rhoi mewn menyg.

Eu plant a hwythau, doed y dydd,  
 O! Henffych ddydd prysura,  
 Pan gaf fi gau fy nwrn yn dŷn,  
 A hwythau heb ddim bara.”

Cyfoder colofn deg a'i sail  
 Ar greigiau Môr y Werydd,  
 Oleudy mawr na syflir byth  
 O ganol yr ystormydd,

I gofio am amynedd mwyn  
 Y gŵr bonedig tirion ;  
 A'i dymher addfwyn, megys Job,  
 Yn nghanol ei drallodion.

Er colli'i odidowgrwydd gynt,  
 A thori corn ei falchder,  
 Ei ddymuniadau da a brawf  
 Hynawsedd ac addfwynder.

Er hyny, nid yw yn llwfrhau,  
 Ond ymwrola'r gwron ;  
 Y mae am geisio cadwen aur  
 A dillad newydd gwychion.

Ac nid bachgenyn ydyw ef  
 I wrido megys llances ;  
 Fel haul heb gwmmwl mae ei wedd  
 Heb g'wilydd ffol a rhodres.

Y gwron gwyd ei goryn balch  
 Yn hyf a digywilydd,  
 Fel talcen llong yn codi 'n uwch  
 Po fwyaf fo 'r ystormydd.

---

### TORIAD GWAWR.

O! MOR ardderchog ydyw toriad gwawr,  
 A chodiad haul yn Nwyrain y môr mawr !  
 Pan fyddo'r wawr yn offrw m aberth mawl  
 Plygeiniol, gan daenellu pyrth y gwawl  
 A'i hyfryd borphor coch ; a thônau mân  
 Yn y gorwelion draw wrth ymyl glân  
 Ysblenydd wisg y wawr, fel gynt y clych  
 Wrth odreu gwisg yr archoffeiriad gwych,  
 Yn dweyd tangnefedd, yn hysbysu hedd,  
 Yr haul ymddengys, hyfryd yw ei wedd,  
 Shecinah natur, ddysglaer wyneb llon,  
 A gwylaidd gilia'r wawr o ger ei fron.

---

### E M Y N .

#### (CYFIEITHIAD.)

CRIST, dysgleirdeb wyneb Duw,  
 Crist, Tad trag'wyddoldeb yw ;  
 Cadarn Dduw a ddaeth ei hun,  
 Gwnaeth ei drigfa gyda dyn :  
 Wele Dduwdod yn y cnawd,  
 Dwyfol Fab i ni yn Frawd ;  
 Duw yn ddyn, fy enaid gwel,  
 Iesu ein Emmanuel.

Henffych Iesu mwyn ei wedd,  
 Henffych i Dywysog hedd,  
 Mae ei bresennoldeb llon  
 Yn dangnefedd i bob bron :  
 Heibio ei ogoniant rhoes,  
 A bu farw ar y groes ;  
 Daeth i'n dwyn yn ol at Dduw,  
 Marw wnaeth i'n cadw'n fyw.

---

CRIST YN RHODIO AR Y MOR.

Y NOS a ddisgynai, a'r brynian a guddiai  
 Fel nythaid o gywion tan aden lawn sêr ;  
 A'r Iesu mawr ydoedd ar un o'r mynyddoedd,  
 Gan gofio llaweroedd yn ymbil â Nêr.  
 A thymhestl ruthrodd tros benau'r mynyddau  
 Ar ddyfroedd Tiberias rhaiadrodd i lawr :  
 Hi floeddiodd mewn udgorn, atebai'r taranau,  
 A lldiai'r elfenau, a'u rhyfel fu mawr.

Delltenai y goedwig, a'r dymhestl ofnadwy  
 Yn esgor ar ddystryw ddyrchafai ei llef ;  
 Clywch! clywch! oddi tanodd y môr a'i ryferthwy,  
 Ei ruad dychrynlyd a leinw y nef :  
 Neshewch at y dibyn i wel'd yr anoddyn,  
 Ei dônau yn dân ar ei wyneb dwfn du ;  
 A ydyw mewn cynghrair a'r mellt a'r taranau  
 I ddymchwel y brynian? mor erch yw ei ru!

Ar hanner y nos y gwrandawai yr Iesu  
 Ar lef ei ddysgyblion o bryder a braw ;  
 Llef egwan a glywid rhwng twrf y taranau,  
 A rhuad y tônau o'r dyfnder îslaw,  
 A'i galon dosturiodd, o'r mynydd disgynodd,  
 A'i draed a osododd ar ddystyll y dôn,  
 Gan hoew ymgynnal ar ddyfroedd anwadal,  
 Ar ymchwydd y llanw gwynebai yn llon.



A sangai'r gwanegau heb wlychu'i sandalau,  
 Gosodai ei bwysau ar wyneb y llyn ;  
 Y llif ansefydlog a gerddai'n ddiysgog,  
 Ar ddyfroedd suddadwy y teithiai'n ddigryn.  
 Y gwyntoedd a chwythant, a'r tònau ymchwyddant,  
 A' ydyw e'n suddo ? mae'r gorllif mor gryf !  
 O'r golwg ! Ha, wele fe'n dringo tòn arall,  
 A'i chopa rhaiadrawg a sanga yn hyf.

Yn awr y disgyna rhwng ymchwydd y tònau  
 Heb lusern i oleu ei lwybr dwfn du,  
 A'r tònau o'i ddeutu yn serth ymddyrchafu  
 Yn yr uchelderau'n fygythiol eu rhu.  
 Esgyna dòn arall, a hithau ymchwydda,  
 Ymchwydda o tano fel mynydd fo mawr ;  
 I'r cwmwl a'r t'w'llwch fel Moses esgyna,  
 A'r daran groch-rua o'i amgylch yn awr.

Gan dyrfu'n fyddarol, y dòn a ymdora,  
 A'r Iesu ddisgyna i'r dyfnder islaw ;  
 A fflachiad y fellten wrth rwygo'r ffurfafen  
 A ddengys ei wyneb yn dawel ddifraw :  
 Sang eto ar uchel fynydd-fawr forynau,  
 A'r ewyn yn lluwchio fel tymhestl o iâ,  
 A chynhwrf syfrdanol y gwyntoedd a'r tònau,  
 A nerth anllesteiriol o hyd a fwyha.

Fel teithiwr nos dywell ar fynydd annghysbell,  
 Yr Iesu edrychai am lewyrch o draw ;  
 Ond lamp ei ddysgyblion ddiffodd'sai yr awrhon,  
 A hwy a fordwyent mewn dychryn a braw ;  
 Trwy gynhwrf ofnadwy y gwynt a'r rhyferthwy  
 Gwrandawodd a chlywodd, a'u dolef oedd drist :  
 Tosturiodd ei galon, yn mlaen trwy beryglon  
 I gadw'r dysgyblion yr aeth Iesu Grist.

Er meddu'r galluoedd o'r Duwdod sy' deilwng,  
 Gan iddo ddarostwng ei hunan fel gwas,

Fel gwas ymgynnalai dan bôb anhawsderau,  
 Gan ddangos ar brydiau ei Dduwdod a'i ras;  
 Trwy wyrth ar y dyfroedd suddadwy y sangai,  
 Trwy ymdrech y dalai hyrddiadau y llif:  
 Y gwyntoedd gryfhasant, ac arno curasant,  
 Ac ef ymdarawai â thônau dirif.

Trwy gynhwrf echrydus elfenau ystormus,  
 Cyfeiriodd ei ffordd i gyfeiriad y llef;  
 A'r llong drallodedig a welai ar fyrder  
 Yn disgyn i'r dyfnder, yn esgyn i'r nef:  
 Yn wrol ymdrechai â'r gwyntoedd amryfal,  
 A'r dyfroedd anwadal, a rhuthr y lli';  
 A gwelai'r dysgyblion yr Iesu yn dyfod,  
 Ac yn eu brawychdod dyrchafent eu cri,—

“Drychiolaeth! drychiolaeth, O! wele ddrychiolaeth!  
 Mae'n sangu ar warau y tônau diraith;  
 Mae'n esgyn, mae'n suddo, mae'n suddo, mae'n  
 A dinystr sydyn sy'n dilyn ei daith. [esgyn!  
 O Fwlltur o bell yn arogli marwolaeth!  
 O! Iesu, p'le 'r ydwyt? ein gobaith ni gynt,  
 Diflanodd yr ysbryd, na dacw'r ddrychiolaeth  
 Ar ymchwydd y cenllif, â heibio ar hynt.”

A threuliai'r cenlifoedd sylfeini'r mynyddoedd,  
 Ysgydwai'r corwyntoedd golofnau y nen;  
 O ddyfnder i ddyfnder y llong a dywelltid,  
 O'r dyfnder ei lluchid i'r uchder uwchben;  
 Ac ar ei ddysgyblion y gwaeddai yr Iesu  
 “Nac ofuwch, mi ydyw,” yn hyfwyn ei lef;  
 A hwythau, gan ollwng y rhwyfau diallu,  
 Gyfodent a gwaeddent, “Yr Arglwydd yw ef.”

A Phedr gan neidio ar ymchwydd y dyfroedd  
 Ddywedai, “Arch i mi dd'od atat fy Nuw,”  
 A'r Arglwydd genadai, a Phedr a rodiai,  
 A thano cylch-dreiglai y llanw dilyw.

Pan welodd mor gryf oedd y gwyntoedd yn chwythu,  
 A'r tònau'n gwahanu yr Iesu âg ef,  
 Ei ffydd a lesgäodd, ac yntau a suddodd,  
 A gwaeddodd ar Iesu yn athrist ei lef.

Tros raiadr tònau ei Athraw brysurodd,  
 Ar war y llifeiriant y rhodiai yn wych,  
 A'i fraich a estynodd, a'r dysgybl gododd  
 O ganol y dyfroedd bob edef yn sych.  
 I'r llong ei cymmerodd, ac yno pan sangodd,  
 Y dymhestl beidiodd ar amnaid ei law;  
 A'r morwyr a ddaethant, ac iddo plygasant,  
 Mab Duw gydnabuant mewn syndod a braw.

---

#### ADFERIAD IECHYD TYWYSOG CYMRU.

Ei helm a roes o'r neilldu,  
 Ac heibio rhoes ei gledd;  
 A'i ben roes ar obenydd  
 Yn welw iawn ei wedd;  
 Ei wraig a'i blant a wylent  
 Am dad a phriod mwyn,  
 A Phrydain gollai ddeigryn,  
 Yn athrist iawn ei chwyn.

Ei weddw fam ymgrymai  
 Wrth orsedd gras y nef,  
 A chyda hi dyrchafodd  
 Y genedl fawr ei llef;  
 A'r Arglwydd Dduw wrandawai  
 Yn ei dynerwch mad;  
 Mab hynaf Prydain lonodd  
 Pan wenai'i nefol Dad.

Ei blant a dda'ent gan ddringo  
 Ar erchwyn gwely'u tad,  
 A'i annerch â chusanau  
 Fel un fu 'mbell o'i wlad;

A Thywysoges Cymru  
 Oblygai uwch ei ben,  
 Ac a fendithiai'r nefoedd  
 Mal tlos angyles wen.

A'r fam freninol nesai  
 I gael ei mab gan Dduw,  
 A'i llygaid yn ffynnonau,  
 A ffrydiai ddyfroedd byw;  
 Ac a fendithiai'r Arglwydd,  
 A'i dwylaw tua'r nen,  
 A chyda hi dywedai  
 Y genedl oll, Amen.

Emynau mawl adseinir  
 Gan greigiau Cymru i gyd;  
 A Phrydain a gyd-gana  
 Nes yr adseinia'r byd.  
 Chwi foroedd maith tymhestlog  
 Sy'n cario'r faner fawr,  
 Dyrchefwch chwithau'ch tônau  
 O fawl i'r nef yn awr.

Gwisg eto, O! Dywysog,  
 Dy gleddyf ar dy glun;  
 Saf dros ogoniant Prydain,  
 A thros iawnderau dyn:  
 Tra curo'th galon ddedwydd  
 Mewn iechyd llawn a bri,  
 Calonau dy fyrddiynau  
 Fo'n curo'n bur i ti.

---

## RHYFELGAN.

(EFELYCHIAD.)

CLYWCH yr udgorn croch yn galw,  
 Awn ymladdwn dros ein gwlad:

Glew yw'r gwron a orchfygo,  
Neu a gwympo yn y gad.

'Mlaen, yn mlaen yn wrol fechgyn,  
Duw a ddyco'r gwaith i ben;  
Mentrwn ein bywydau'n llawen,  
Dylem 'ddiffyn Cymru wen.

Ffarwel Prydain, ffarwel gartref,  
Ffarwel ffryndiau gan' mil gwell;  
Er mwyn Prydain a Phrydeiniaid,  
Rhaid o Prydain fyn'd yn mhell.

Ac yn sŵn y croch fagnelau  
Cofiaf am gusanau Gwen,  
Ac wrth gofio ymwrolaf  
I amddiffyn Cymru wen.

Henffych well, floeddiadau'r udgorn,  
Henffych uchel storm y gad:  
Da y gwyddom, ffordd dyledswydd  
Ydyw'r ffordd i gadw'n gwlad.

---

### Y BWTHYN TWT.

DEWCH at y bwthyn acw,  
Y mae o'n dwt a thlws;  
A chlicied ar y penor,  
A gardd o flaen y drws;  
Y pistyll yn ei ymyl  
Yn murmur yn ddidawl,  
A'i wyneb yntau i'r Dehau  
Yn gwenu yn y gwawl.

Ar hyd y muriau gwyngalch  
Rhosynau cochion sy',  
A rhai oddeutu'r ffenest'  
Yn spio i mewn i'r tŷ;

I mewn mae canghen hyfryd,  
 A phump o rosus bach,  
 A hawddgar wrid y boreu  
 Sydd yn eu gruddiau iach.

A dewch i mewn am fynydd,  
 I'w gwel'd yn yfed tê:  
 Mae yma le i bobpeth,  
 A phobpeth yn ei le;  
 Mae'r cloc yn taro pedwar,  
 A'i wisg yn loew lân;  
 A'r tepot ar y pentan,  
 Yn gwenu hefo'r tân.

Y muriau megys marmor,  
 Y llawr fel gloew ddrych,  
 Y wraig yn lân drwsiadus,  
 Fel rhyw frenines wych,  
 Y plant i gyd yn chwerthin  
 Wrth chwareu ar y llawr,  
 A'r gŵr yn brysio adref,  
 Yn hoffi'r lle yn fawr.

---

### EMYN PLANT YR YSGOL SUL.

TRA y perseinia'r angel  
 Ei nefol euraidd dant,  
 Dyrchafer mawl i'r Iesu  
 O galon serchog plant;  
 Bu yntau ar y ddaear  
 Un waith yn friw ei fron;  
 Ei galon lawenycha  
 Pan glyw ein lleisiau llon.

Ein Iesu mawr bendigaid,  
 Tywysog nef y nef,  
 Tywysog iachawdwriaeth,  
 Moliannus fyddo ef.



Ag odlau ac ymbiliau  
 Awn at ein Harglwydd hael;  
 Bendithion i fyrddiynau  
 Sydd ganddo ef i'w cael.

Yr haul sy'n gwrido'r nefoedd,  
 Mewn cariad pur at ddyn,  
 Fendithio blant yr ysgol  
 Sabbathol bod ag un:  
 Bendithier ein hathrawon  
 I fod i ni byth mwy  
 Yn fendith, fel bo'm ninnau  
 Yn fendith iddynt hwy.

Mor dirion yw yr Arglwydd!  
 Ei air i ni a roes;  
 I'w gofio ac i'w gadw  
 Cyssegrwn foreu'n hoes:  
 Parhawn i'w wasanaethu  
 Nes gorphwys yn y nef;  
 A'r gorphwys fo gwasanaeth  
 Trag'wyddol iddo ef.

---

### BYDD CANU YN Y NEFOEDD.

BYDD canu yn y nefoedd  
 Pan ddelo'r plant yn nghyd,  
 Y rhai fu oddi cartref  
 O dŷ eu tad cyhyd:  
 Dechrenir y gynghanedd,  
 Ac ni bydd wylo mwy,  
 Ond Duw a sych bob deigryn  
 Oddiwrth eu llygaid hwy.

Mae Iesu yn darparu  
 Trigfanau yn y nef,  
 I wneuthur croesaw helaeth  
 I'w holl anwyliaid ef;

Dechreuant fod yn llawen,  
 Ac ni bydd gofid mwy;  
 Ond Duw a sych bob deigryn  
 Oddiwrth eu llygaid hwy.

---

AC MI A WN FOD EI ORCHYMYN EF YN  
 FYWYD TRAGYWYDDOL.

MÆ gorchymyn Duw yn fywyd,  
 Bywyd i bechadur trist;  
 Dyna ydyw ei orchymyn,—  
 Credu'n enw Iesu Grist:  
 Wrth y rhai sy'n credu ynddo,  
 Dywed Iesu wrth eu bodd,  
 "Byw wyf fi, a byw a fyddwch  
 Chwithau hefyd yr un modd."

Cyfaill dyn a Duw sy'n dadleu  
 Rhin ei waed yn nef y nef,  
 Fod i bawb a gredant ynddo  
 Gael eu bywyd trwyddo ef:  
 Arglwydd bywyd a gogoniant  
 Orchymyna fod i'r rhai  
 Sydd yn credu yn ei enw  
 Gaffael bywyd pur didrai.

---

DYMUNWN FOD FEL IESU.

(CYFIEITHIAD.)

DYMUNWN fod fel Iesu,  
 Yn addfwyn fel efe;  
 Ni ddaeth un gair anfwyn erioed  
 Dros ei wefusau e':  
 Dymunwn fod fel Iesu,  
 Mewn gweddi'n cael mwynhad;  
 5

Ar ben y mynydd—yno ei hun,  
Gweddiai ar ei Dad.

Dymunwn fod fel Iesu,  
Erioed ni thalodd e',  
Er derbyn gwawd a chas y byd,  
Anghariad yn eu lle:  
Dymunwn fod fel Iesu,  
Yn gwneuthur da bob dydd;  
Fel y derbyniwn ddydd a ddaw  
Wobrwyon am fy ffydd.

Dymunwn fod fel Iesu,  
Yr hwn wahoddai'n hael,  
"O! dewch, chwi gewch fendithion nef,"  
Af ato ef i'w cael:  
Ond nid oes arnaf nodâu  
Yr Iesu, nag oes un;  
O! Iesu hawddgar, o dy ras  
Gwna fi fel ti dy hun.

---

### GOSTYNGEIDDRWYDD.

Y MAE telynau'r nefoedd wen  
Yn moli'r Iesu cun,  
Ond ef o fewn y nef i gyd  
Yw'r gostyngyddiaf un.

Pan gym'rodd arno agwedd gwas,  
Gan adaw rhwysg y nef,  
Mewn gostyngyddrwydd nid oedd neb  
Yn debyg iddo ef.

Ac er y tristwch yn yr ardd,  
Yr ofnau dwys a'r brad,  
Fe ymostyngai'n ufydd iawn  
I gynghor doeth y Tad.

Ei fywyd yn esiampl sydd  
 O Dduw yn cydymddwyn;  
 A seliodd yr esiampl dêg,  
 Bu farw er ein mwyn.

---

### DINAS DUW.

MAE dinas uwch ein daear ni,  
 Preswylfod oleu Duw:  
 Os ufyddhawn i Iesu Grist  
 Cawn fyned yno i fyw.

Ac yno mae gogoniant pur,  
 Y ddinas lle mae Duw!  
 Mor ddedwydd yw angylion nef  
 Eu bod hwy yno'n byw.

Mor fwyn a gorfoleddus y'nt  
 Ganiadau dinas Duw;  
 Ni gawn lawenydd gwiw a hedd  
 Os cawn fyn'd yno'i fyw.

Aeth Iesu Grist er's llawer dydd  
 O'n blaen i ddinas Duw:  
 Dilynwn ef, mae yn gwahodd,  
 A chawn fyn'd yno i fyw.

---

### UNED CALON SAINT AC ENGYL.

UNED calon saint ac engyl  
 I'th fendithio di, O! Dduw;  
 Arglwydd nef a daear ydwyt,  
 Ymfrost pob creadur byw.

Deuaist o'th orseddfa nefol,  
 Do, i waedu trosom ni;

Bydd i fryniau trag'wyddoldeb  
Adsain gan dy foliant di.

---

## HYD YN HYN NI OFYNASOCH, &c.

(IOAN XVI. 24.)

PAN fyddom yn gweddio,  
Mae genym ddadl gref,  
A gawsom ni gan Iesu,  
Ei enw anwyl ef.  
Gweddiau pechaduriaid  
Yn mhob cyfyngder trist,  
Wrandewir yn y nefoedd  
Yn enw Iesu Grist.

Yr oedd y ddadl yma'n  
Ddirgelwch i bob dyn  
Nes iddo ef ei datgan  
O'i 'wyllys da ei hun:  
Mae enw santaidd Iesu  
Mor anwyl yn y nef,  
Bendithir rhai annheilwng  
Er mwyn ei enw ef.

---

## YR IESU YN HAWDDGAR.

Y MAE ef oll yn hawddgar,  
Hawddgarwch nef y nef;  
Mae gras yn mhob ysgogiad  
Erioed o'i eiddo ef.  
Yr oedd ef oll yn hawddgar  
Pan yn y preseb gwael;  
Ymgrymai'r doethion iddo,  
A rho'ent anrhegion hael.

Y mae ef oll yn hawddgar,  
 A'i ymddygiadau'n gu:  
 I'w dad a'i fam bob amser  
 Yn ufydd iawn y bu;  
 Y mae ef oll yn hawddgar,—  
 Pan yn ei fedydd, gwn  
 I'r nefoedd bur ei arddel,  
 "Fy anwyl Fab yw hwn."

Y mae ef oll yn hawddgar,  
 Ac mewn trag'wyddol fri,  
 Ar ddeheulaw y mawredd  
 Yn eiriol trosom ni:  
 Paham na welem degwch  
 Hawddgarwch nef y nef?  
 Nid all y nef ond moli  
 Ger bron ei degwch ef.

---

### Y LLYGAD GLAS LLIWGAR.

Y LLYGAD glas lliwgar ennynodd fy serch,  
 Gwallt hirllaes dysglaerddu sy'n addurn i'r ferch  
 Tra cura fy nghalon fe garaf fi hon,  
 Y rian ddiotal a friwiodd fy mron.

Mae glendid y lleuad wrth lendid y ferch  
 Sydd wedi atdynu holl lanw fy serch?  
 Mae cariad yn curo fy mynwes fel tôn,  
 A'm calon ar ddryllo: pa beth ddaw o hon?

---

### CAN AGORIAD YR EISTEDDFOD.

HENFFYCH awen prydyddion,  
 A miwsig cerddorion,  
 Cyweirier y delyn ddyddanus;  
 Ar gangau yr helyg,



Mewn anghof a dirmyg,  
Y croger pob gofal ffwdanus.

Clod ac enw y Cymry,  
Ac iaith yr hen Gembra,  
Dafodiaith gain oleu gynnalïa;  
Ei gofal mynwesol  
A'i gwna yn gynnesol,  
Angyles warcheidiol bro Gwalia.

A dealled pob Cymro  
Fod iddo fo roeso  
I dd'od i ymloni eleni;  
Dawn natur a'i chynnydd,  
Y trwstan a'r celfydd,  
Pob dawn sydd yn llawn tan ei lleni.

---

### CYNGHOR TAD I'W FAB.

(SHAKSPEARE.)

BOED i'r ychydig wersi hyn, fy mab,  
Nodweddu dy gymmeriad di:—Na ddyro  
I'th holl feddyliau dafod, na gweithredïad  
I un tueddfryd annghyfaddas. Bydd  
Yn rhydd-gyfeillgar, ond nid yn ddifoes.  
Dy ffryndïau genyt yn brofedig sydd,  
Bâch wrth dy enaid âg adfachau dŵr;  
Na ddyro chwaith ddeheulaw gyfeillachol  
I bob cydymaith newydd. Gochel rhag  
Dy fyned i ymrafael; wedi myned,  
Ymddyga fel y'th ofno'th elyn di;  
I bob dyn dyro glust, ond nid dy lais.  
Goddefa sen; arbeda'th farn dy hun.  
Boed traul dy wisg yn ateb i dy bwrs:  
Nid yn arddangos ffoledd; gwych, nid coeg;  
Mae'r wisg yn dangos pa fath yw y dyn.

Na cheisia fenthyg ac na ddyro chwaith,  
 Yn fynych colla'r benthyg ef ei hun  
 A'r cyfaill hefyd; a benthyca yn wir  
 A byla awch diwydrwydd. Hyn, uwch oll,  
 I ti dy hun, fy mab, yn ffyddlawn bydd:  
 A dilyn raid fel nos yn dilyn dydd,  
 Nad elli fod yn ffals i unrhyw ddyn.

---

NELI FY NGHARIAD.

Mae nghariad fel y lloer y nos  
 Yn gwenu'n fwyn o hyd;  
 Mae gwyneb glân fy nghariad glos  
 Yn swyno'n llwyr fy mryd;  
 O paid, fy ngeneth oleu  
 A bod 'r un fath a'r lloer,  
 Yn siriol iawn dy wênau,  
 A'th galon tuag ata'i 'n oer.

O! bydd fy ngeneth ddiddig ddel,  
 'Run fath a'r lleuad gron:  
 Un gwyneb gen't ti'n unig, Nel,  
 A hwnw'n fwyn a llon;  
 A chadw hwnw'n wastad  
 Yn llawen ac yn ffri,  
 Pe caet ti oes y lleuad  
 I fagu dau gorn fel hi.

---

BRYS, BRYS, FY MARCH.

Brys, brys, fy march ar hyd y waen,  
 Llana tros y foel fel mellten;  
 At Gweno fwyn, carlama 'mlaen,  
 O na bai cariad i ti'n aden.

Machluda'r haul draw dros y dòn,  
 Taena'r nos dros ddol a mynydd;

Ond haul a dydd yw llygaid llon  
F' anwylyd hyfryd, a'm llawenydd.

Ymdafl yn mlaen, estyna'th drwyn,  
A llifeiried daear danad;  
Ehed yn mlaen, ac heibio'r llwyn,  
Dwg fi'n fuan at fy nghariad.

Carlama nes daw'r daith i ben,  
Nes bo'r foel yn troi fel meddw,  
A'm geneth brydferth â'i llaw wen  
Ganmola'th orchest ar dy wddw.

---

### Y GADAIR WAG.

EISTE' 'R oeddwn mewn ystafell,  
Yn y nef tywynai'r lloer  
Trwy y ffenest' ar y gadair  
Wag oedd unig yno, ac oer.  
A chan wyllo o'u ffurfafen,  
Wylai'r sêr hyd wawr y dydd;  
Wylais innau, trist oedd edrych  
Ar y gadair weddw brudd.

Megys gwely heb un afon,  
Megys ffynnon a fo sech,  
Neu ffurfafen o dywyllwch  
Heb un haul na lleuad wech:  
Gwag a phruddwedd, diddim felly,  
Oedd y gadair welais i  
Heb y gwron gynt eisteddai  
Rhwnng ei breichiau derw hi.

Eto'r llif a leinw'r cennant,  
Yn y ffynnon dwfr a dardd,  
A'r ffurfafen ogoneddir  
A goleuni heulwen hardd:

Ond diobaith megys mynwent  
 Ydoedd hòno, megys nyth  
 Wedi'i adael er y llynedd,—  
 Yno ni ddychwelir byth.

Mi edrychais a dyfelais  
 Pwy fu'n eistedd yno gynt,  
 Ac yn gorphwys a meddylio  
 Wedi llawer dyrys hynt;  
 Ond nid oedd y sêr yn ateb,  
 Ac ni ellais ddeall pwy:  
 Gwag y gadair lle'r eisteddai,  
 Ac nid edwyn mo 'no mwy.

Esmwyth gwsg yn awr a seliodd  
 Fy amrantau swrth yn nghyd,  
 Eto, yn fy mreuddwyd gwelwn  
 Yr hen gadair wag o hyd;  
 Tybiwn weled yn dynesu  
 At y gadair Corro'r ci,  
 A chan udo am ei arglwydd,  
 Fe orweddodd tani hi.

Daeth dwy eneth fechan brydferth  
 At y gadair wag yn awr,  
 Un o'r ddwy a ddringai arni,  
 Ond ei chwaer a'i tynai i lawr:  
 "Paid a dringo'r gadair," meddai  
 Gyda diniweidrwydd bron,  
 Eiddigeddai'r plentyn gwirion,  
 "Tada bia'r gadair hon."

Yna deuai gweddw ieuanc,  
 Hawddgar fel y boreu mwyn,  
 Dagrau oedd yn gwlitho'i gruddiau,  
 Tor-calonus oedd ei chwyn:—  
 "Ofer chwilio am fy mhriod,  
 Ni chaf wel'd ei wyneb llon;

Yma'r wyf yn tori 'nghalon,—  
Gwag o hyd yw'r gadair hon."

---

PENNILLION I DDARLUN MR. SIMON,  
RHUTHYN.

DARLUN a anfonwyd imi,  
Wedi'i lunio â'r goleuni:  
O'r un defnydd a'r angylion,  
A phob iota'n wir sy yma megys Simon.

Eiriach yni mawr eich enaid,  
Ag sydd lon'd eich natur danbaid;  
Tân o'r olwyn fflamlyd yna  
Yn eich ardeb fel eich wyneb a wreichiona.

Tecca' loniant y goleuni,  
Yn mhelydrau'r haul yn codi,  
Yn dy wyneb a dywyna,  
Hwn yn onest gyda gorchest adlewyrcha.

Braidd na luniodd yr arlunydd  
Yma fwriad a lleferydd;  
Braidd na fynwn i glustfeinio  
Am eich ffraethion ymadroddion trwyddo'n  
treiddio.

---

PENNILL AR OL J. HUGHES, CRAIG Y  
DDEWARTH, RHUTHYN.

O! BLENTYN y nefoedd, mewn hyder  
A hedd ymestynai yn hy'  
O fynwes yr eglwys sydd isod,  
I fynwes yr eglwys sy' fry;  
'Mollyngodd o fynwes i fynwes,  
Gorphwysodd yn mynwes ei Duw;  
Ymdaflodd o fynwes y ddaear  
I fynwes y nefoedd i fyw.

## CUSAN FY NGHARIAD.

DYMUNIAD fy nghalon, hyfrydwch fy enaid,  
 Bodddhad fy ewyllys yw cusan fy mun;  
 Perffeithrwydd pleserau yw cwmni fy nghariad,  
 A diliau ei chwmni ei chusan mwyn cun.

Melusder anwyldeb, a ffafr gyssegredig,  
 Ac olew a wella fy nghlwyfau i gyd;  
 Mae pobpeth dymunol yn nghwmni cariadus  
 Y rian hawddgaraf a ddenodd fy mryd.

---

 “RHWNG Y DDWY AC HEB YR UN.”

'R wy'n caru dwy ferch deg,  
 'R wy'n caru dwy ferch wiw,  
 Rhai hawddgar iawn i mi  
 Bob un eu llun a'u lliw:  
 Ond wrth eu caru yn gytun,  
 Wyf rhwng y ddwy ac heb yr un.

'R wy'n caru'r ddwy 'r un fath  
 Yn gymhwys am wn i,  
 A hwythau'n caru'n ol  
 Yn debyg, dybiwn i;  
 Er hyn 'r wy'n ofni ynof f' hun  
 Bod rhwng y ddwy ac heb yr un.

Mae'r ddwy yn ffryndiau mawr,  
 Mae hyn yn ofid mwy,  
 O ran os digiaf un,  
 Wel,—ddigia'i byth mo'r ddwy:  
 Ac eto blin yw'm lle a'm llun,  
 Bod rhwng y ddwy ac heb yr un.

Ni fynwn er y byd  
 Dramgwyddo'r un fel dae,



Mae'r ddwy yn anwyl iawn,  
 Chwi welwch fel y mae;  
 'R wy'n methu'n lân a dewis p'run,  
 'R wy' rhwng y ddwy ac heb yr un.

Yn wir mae caru'r ddwy  
 Yn brofedigaeth im':  
 A phrofedigaeth fwy  
 F'ai bod heb garu dim;  
 O! rhodded rhywun help i'r dyn  
 Sy' rhwng y ddwy ac heb yr un.

---

### SALI, SALI, SALI.

LODES hawddgar liwgar lygad,  
 Ydyw'r fun a fynai'n gariad;  
 Fis yn ol mi winciais arni,  
 'Ches i fawr o sylw Sali.

Llygad du a gwallt o'r unlliw,  
 Deunaw mlwydd ei hoed hi ydyw;  
 Tal ac ysgafn, wasgfain, wisgi,  
 Lodes hwylus ydyw Sali.

Ar y feinir heini, hoenus,  
 Mi wnes lygad go olygus:  
 Gwnes fy hun y Sul diwedda'  
 Yn hyf i siarad hefo Sara'.

Ffraeth ei thafod, pert ei hateb,  
 Mae ei geiriau'n llawn anwyldeb;  
 Hon yw'r eneth i 'ngwirioni,  
 'R wyf yn sal o serch at Sali.

Echdoe bum yn daer ymgeisiol  
 Am gael arall ffraint garwrol,  
 Rhoddodd law garedg imi,  
 Dyna sail y caf fi Sali.

Glânach, glânach, tegach, tegach,  
 A y fun o hyd yn fwynach;  
 Crych yw'r gwallt sy'n addurn iddi,  
 'R ydwy'n dotio at fy Sali.

Wel, mi geisia'n daer am gusan  
 Pan gaf weled Sali wiwlan;  
 Gwych fy hoen, heb ddim i'm poeni,  
 Pan ddaw'r Sul i weled Sali.

Sali, Sali, lodes wiwlon,  
 Miwsig yw ei llais i'm calon,  
 Megys dwsmel yn telori,  
 Sali, Sali, O! fy Sali.

---

### BEDYDD CRIST,

PAN oedd Ioan yn bedyddio,  
 Gan bregethu teyrnas nef,  
 Pobl Caersalem ddeuent ato  
 I'w bedyddio ganddo ef,  
 Gan gyffesu eu pechodau  
 Ymostyngent o lwyr fryd;  
 Ond nid llif yr holl Iorddonen  
 Olchai ymaith feiau'r byd.

Ac i'w fedydd ef daeth Iesu,  
 Ef yn ddeg ar hugain oed,  
 Ond heb bechod i'w gyffesu  
 Am na wnaeth un bai erioed;  
 Ond yr Arglwydd roddes arno  
 Ein hanwiredd ni i gyd:  
 Ymgyflwynai ef i'w fedydd  
 O dan bwys pechodau'r byd.

Tystio wnaeth ger bron y nefoedd  
 Mai gwirfoddol oedd efe

I fyn'd trwy ei fedydd arall,  
 A dyoddef yn ein lle ;  
 O'r gogoniant tra rhagorol  
 Daeth y llef o Ddwyfol ddawn,—  
 "Hwn yw f' anwyl Fab, a chefais  
 Ynddo'n llwyr foddlonrwydd llawn."

---

EMYN BOREU DYDD YR ARGLWYDD.

O! FENDIGEDIG ddydd,  
 Y dydd ordeiniodd Duw ;  
 Y dydd i roi ein baich i lawr,  
 Y dydd i orphwys yw ;  
 A dyma foreu'r dydd,  
 Mae'r saint yn d'od yn nghyd,  
 Yn un mewn cân a gweddi lân  
 I Brynwr mawr y byd.

O! ddedwydd wyl yw hon,  
 I gofio'r boreu gwiw  
 Y cododd gwawr o lawr y glyn  
 Hyd entrych nefoedd Duw ;  
 Hyd byth ni all y paid  
 Boddlonrwydd mawr y Tad,  
 Ond lleinw ef holl gylchoedd nef  
 A mawl a hir goffhad.

O! "Iddo ef!" a chawn  
 Ymuno yn y man  
 Mewn bythol orfoleddus wyl,  
 A thorf y gynau cân ;  
 A chroesaw calon Duw  
 Wahodda ni mewn hedd,  
 Ddydd hwn ei ras, i brofi blas,  
 Arlwyon hael ei wledd.

## GWENLLIAN, WIFE OF EDNYVED VYCHAN.

### THE FABLE.

**EDNYVED** and **GWENLLIAN**, the subjects of the following lines, flourished in the 13th century; and their residence was Tregarnedd, Anglesea (Môn). Ednyved, under his prince Llewelyn the Great, resisted the incursions of the Normans into Wales, who were headed by the Earl of Chester. Afterwards he led a band of his countrymen into the Holy Wars. During his long absence, according to tradition, his wife contracted a marriage with another, but on the wedding day Ednyved returned, whom Gwenllian recognised as he was playing the harp.

#### I.

THE isle imbosomed in the western sea  
 With rocks and storms to guard its merry lea,  
 And foaming billows washing on its shores,  
 Where loud to heaven the rushing torrent roars:  
 The sheltered isle beyond Eryri bold,  
 Where oft our nation succour found of old,  
 Is the fair island where the noble dame  
 Gwenllian dwelt in plenty and in fame.

In hosts the Normans came to Cymru, then  
 Encamped and warr'd in many a vale and glen,  
 Devouring far and wide with sword and flame;  
 And worthy evermore to live in fame  
 Are Cymru's sons, for worthily they died  
 Defending Wales, their country, and their pride.  
 The wave embraced the happy isle of Môn,  
 Murmuring peace with loud unceasing tone;  
 And at Tregarnedd to the babe that clung  
 Around her milk-white neck Gwenllian sung:—

“O! sleep my darling Olwen,  
 O! sleep, my baby, sleep;  
 Thy cheek so ruddy gladdens  
 My heart so apt to weep:  
 The heart of thy fond mother  
 Is with thy father far,  
 Who labours for our freedom  
 Advent'rous in the war.

My heart is heavy, Olwen,  
 My bosom, babe, is torn,  
 Because my brave Ednyved  
 Delays his sweet return:  
 My heart again recovers  
 As cheerful as the light,  
 With news of my Ednyved,  
 Triumphant in the fight.

And as a whirlwind driving  
 With wild and mighty burst,  
 The rains along the valleys  
 And glens afar dispersed:  
 Ednyved in avengement  
 Pursues the enemy,  
 In wild and frantic terror  
 Thy father's face they fly.

And as the mighty whirlwind  
 Disturbs the tide afar  
 Thy father and his heroes  
 Confuse the hostile war:  
 The foes that well oppose him,  
 His mighty weapon feel,  
 The rest fly in confusion  
 Before his deadly steel.

And in the field of glory  
 He reaps the ripened sheaves;  
 His laurels ever-blooming,  
 Eternal are its leaves.  
 How beautiful is Ednyved,  
 Wielding his sword so brave!  
 And he secures his booty,  
 Unyielding as the grave.

Thy name, my brave Ednyved,  
 As life itself is dear;

To sing of my Ednyved  
 Costs many a falling tear.  
 But Oh! thou art so cruel  
 In going far from me,  
 And leaving thy Gwennlian  
 Still longing after thee.

Fall on the fell invaders,  
 Strong as the torrent flows,  
 And bid them die and scatter  
 Before thy thundering blows;  
 And to the isle of Mona,  
 Let be preserved thy name,  
 A glory and inheritance  
 In history, song, and fame.

Sleep, sleep, my little baby,  
 O! sleep, my shining star;  
 And when thy noble father  
 Returneth from the war,  
 More than in all his triumphs  
 He will rejoice in thee,  
 To nestle in his bosom,  
 And smile upon his knee."

So sung Gwennlian in her rocking chair  
 Ednyved's praise, until her baby fair  
 Slept in her arms, and yet she sang aloud  
 With longings intermixed with praises proud.  
 And as the seaman's wife with ear so grave  
 Attentive to the uproar of the wave  
 At midnight dark, and the confusing wind  
 Awakening the storm to deeds unkind,  
 Gwennlian watched the war-news of the day,  
 While on her breast the sleeping baby lay.  
 The tempest shook Eryri's basis deep;  
 And foremost in the dreadful strife to leap  
 Ednyved was: and as the anxious mind  
 Of merchant rich, his wealth before the wind



Upon the changeful ocean, for the chief  
Of old Tregarnedd was the lady's grief.

## II.

One day, Gwennlian at Tregarnedd old  
